# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

9 771753 107001

**Rhifyn 300 - 60c**
**Chwefror 2012**

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg


**Siaradwyr Cyhoeddus o fri!**



Tudalen 2

**Cadwyn cyfrinachau yr ifanc**



Tudalen 10

**Pêl-rwyd yr Urdd**



Tudalen 24

# DROS DAIR MIL AT ACHOSION DA




Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn brysur iawn i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni gan godi dros dair mil at achosion da. Codwyd swm teilwng o £2,316.69 yn y Sioe a Threialon Cŵn Defaid blynyddol gyda'r elw yn mynd tuag at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Llanelli. Cyflwynwyd swm o £80.15, sef casgliad y Cwrdd Diolchgarwch, i goffrau'r clwb. Codwyd £730.04 wrth fynd o amgylch yr ardal yn canu carolau a chyflwynwyd yr arian hwnnw i Hosbis Tŷ Bryngwyn, Llanelli. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at yr elusennau uchod. Yn y llun gwelir aelodau'r clwb yn cyflwyno'r arian i gynrychiolwyr o Hosbis Tŷ Bryngwyn, Llanelli ac i Mr a Mrs Eric a Tegwen Davies ar ran Uned Cancr y Fron, Ysbyty Llanelli.



**300fed rhifyn CLONC**

Eileen Rees, Tanrhos, Cwrtnewydd ar y chwith, yn ennill Gwobr Teilyngdod 2011, yn rhoddedig gan Athletau Cymru, i gydnabod ei chyfraniad i hybu diddordeb mewn athletau ymysg yr ifanc yn Llanbed a'r cymunedau cyfagos. Cyflwynwyd y wobr gan Mr a Mrs Wiselaw Gdula yng nghinio blynyddol Clwb Rhedeg Sarn Helen yn diweddar. Llongyfarchiadau gwresog i chi Eileen!

# Siarad Cyhoeddus C.Ff.I. Sir Câr a Cheredigion



Luned Jones, Betsan Jones, a Rhian Davies, C.Ff.I. Llanllwni yn derbyn cwpan am gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth ddarllen dan 14 oed gyda beirniad y dydd, sef Mr Aled Johnson.



Einir Ryder, Pontsian yn ennill Cwpan y cadeirydd gorau dan 26 oed yng nghystadlaethau'r Siarad Cyhoeddus Saesneg yn Felinfach.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion - Enillydd cystadleuaeth y siaradwr gorau dan 16 oed oedd Carwyn Davies, Llanwenog.



Sioned Davies, Llanwenog yn ennill Tarian y Cadeirydd gorau dan 16 oed yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion.




Yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion enillwyd cwpan y siaradwr gorau dan 21 gan Elin Jones, Llanwenog.



Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion - Meinir Davies yn ennill cwpan y darllenydd gorau dan 14 oed a Sioned Fflur Evans yn dod yn gyntaf fel diolchydd dan 16 oed, y ddwy ohonyn nhw yn aelodau yng Nghlwb Llanwenog.



Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion - Dan 16 oed daeth dau dîm yn gydradd gyntaf, Tîm Llanwenog "B" a Llanwenog "C". O'r chwith - Tîm "B" Sophie Jones, gyda chwpan y diolchydd gorau; Gwawr Hatcher a Lauren Jones. Tîm "C" Daniel Morgans gyda chwpan y tîm; Carwyn Davies a Bleddyn Jones enillydd cwpan y cadeirydd gorau.



Ar ddiwedd y dydd, yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion, enillwyd y darian am y clwb â'r marciau uchaf gan Glwb Llanwenog.



Aelodau Clwb Llanwenog a enillodd y marciau uchaf ac ennill y Darian am y clwb â'r marciau uchaf yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion ar gampws Felinfach.

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Chwefror | Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen | 480526 |
| Mawrth | Delyth Morgans, 11 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth | |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | 07971375068 |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Morgans | |
| Dylunydd y mis: | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipyddion | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| | Joy Lake, Llambed | |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Glasfan, Drefach | 480490 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
• Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
• E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
• Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
• Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
• Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
• Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
• Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
• Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
• Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Cyrraedd 300**

Hwn yw tri chanfed rhifyn 'Clonc'. Diawch, a mae dyn yn mynd yn hen. A mae pethau wedi newid. Fy nghyfraniad i yn y rhifyn cyntaf oedd datblygu lluniau. Prin iawn oedd fy mhrofiad, heb ddatblygu ond rhyw ddwy ffilm cyn hynny. Roeddwn yn ffodus fod gennyf ystafell dywyll yn y tŷ ac ystafell ymolchi gyfleus i orffen y broses ddatblygu. Cefais aml i bregeth am golli hylif cemegol dros y carped. Diolch fod camerâu digidol wedi cael gwared â hyn erbyn hyn.

Atgof arall sydd am blygu Clonc gyda disgyblion y Dolau. Del James yn casglu'r papur o Aberaeron a rhyw ddwsin a hanner o blant yn gweithio'n galed yn un o stafelloedd yr ysgol ac yn cael siocled yn wobr. Roedd gofyn bod â llygaid ymhobman gan fod perygl i rai ddal i blygu a rhai tudalennau wedi gorffen. Atgofion melys!

Newid mawr arall digwyddodd yw'r ffordd y mae'r papur yn cael ei osod. "Cut and paste" oedd y ffordd i wneud hynny am sawl blwyddyn. Roedd hynny yn golygu printio'r newyddion a'r hanesion i gyd, eu torri yn ddarnau a'u gludo ar dudalen yn barod i'w hargraffu. Gwneir y cyfan yn awr trwy raglen cyfrifiadur. Roeddem yn rhyw wyth neu ddeg wrth y gwaith ac yn mynd o dŷ i dŷ yn rheolaidd. Roedd te a chacen yn ein disgwyl ar ddiwedd y gwaith. Rwy'n cofio un tro ein bod wedi cael profi cacen briodas un o'r golygyddion, y fam eisiau cael ein barn am yr ymdrech gyntaf. Roedd yn fendigedig ond yn ddim help at y pwysau chwaith.

Pob lwc felly am y 300 rhifyn nesaf. Tybed faint o newid fydd yn hanes ein papurau bro.

**Newid ym myd llyfrau**

Gawsoch chi eLyfr yn eich hosan Nadolig? Na ches i ddim un, ond mae newyddion da gyda fi i chi. O Chwefror y 4ydd, medrwch fenthyca'r rhain o'r llyfrgell am hyd at dair wythnos. Ni fydd rhaid eu dychwelyd gan y byddan nhw'n diflannu o'ch elyfr ar ddiwedd y cyfnod. Newid arall yw'r ffaith ein bod ni nawr yn gallu benthyca cymaint ag ugain llyfr ar y tro yn lle'r wyth y medrwch eu benthyca ar hyn o bryd. Yn ychwanegol, medrwch gadw'r llyfrau am hyd at bedair wythnos yn lle tair. Gwnewch y gorau o'r ddarpariaeth fendigedig sydd yn eich llyfrgell.

**Perygl**

Dwi wedi derbyn e-bost yn dweud am y perygl wrth waredu'r bylbiau golau modern. Gofalwch na adewch iddyn nhw gwympo, oherwydd wrth dorri maen nhw'n gollwng nwyon gwenwynig. Awgrymir eich bod yn gadael yr ystafell am chwarter awr rhag anadlu'r nwyon. Hefyd, peidiwch â defnyddio'r sugnwr llwch i gael gwared ar y sbwriel ond, yn hytrach, defnyddiwch frws a lapio'r cyfan wedyn a'i selio. Gwaredwch y sbwriel mewn safle sy'n delio â deunydd peryglus. Y perygl yn ôl yr hysbyseb yw fod y bylbiau yn cynnwys nwyon gwenwynig mercwri.

Bod yn ofalus yw'r neges.

Pob hwyl am y tro –

*Cloncyn*

# Gohebiaeth Clonc

Annwyl Olygydd,

Ga' i dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun cyffrous, newydd gan gwmni Golwg.

Mae'n rhoi cyfle arbennig i bobl sydd â ffrindiau neu berthnasau'n byw y tu allan i Gymru ... ac i bawb sy'n defnyddio i-ffôn ac i-pad.

Mae'n siŵr bod nifer fawr o'ch darllenwyr yn gyfarwydd â chylchgrawn wythnosol Golwg, sydd wedi bod ar silffoedd ein siopau lleol ers dros 23ain o flynyddoedd. Erbyn hyn, mae'n bosib i bawb sydd ag i-ddyfais ( i-ffôn neu i-pad neu i-pod, er enghraifft) brynu cylchgrawn Golwg a'i ddarllen yn electronig ar eich dyfais symudol bob wythnos.

Dyma'r App cynta' erioed i gael ei lansio gan gylchgrawn Cymraeg – apGolwg! Mae'n ffordd newydd sbon i brynu'r cylchgrawn a chael ambell i beth ychwanegol.

Bydd y cylchgrawn i gyd yno mewn ffordd hawdd ei ddarllen a hawdd symud o le i le ond bydd hefyd yn gyfle ichi fwynhau clipiau fideo a lincs ychwanegol.

Mantais arall yw y bydd y fersiwn App ar gael y funud y mae'r cylchgrawn yn cael ei gyhoeddi, ble bynnag y byddwch chi yn y byd. Bydd y rhifynnau yn cael eu cyhoeddi yr un pryd â'r fersiwn print ac yn costio yr un faint – namyn ceiniog!

Mae'n gyfle gwych i bobl sy'n byw dramor ddarllen Golwg yn rheolaidd. Mae'n bosib i chi danysgrifio i apGolwg am flwyddyn, chwe mis neu dri mis – neu wrth gwrs mae'n bosib prynu fesul rhifyn.

Felly, ewch amdani – apiwch, i fod yn rhan o'r datblygiad hanesyddol hwn. Ewch i wefan i-tunes a chwilota am ap-Golwg, neu am fwy o wybodaeth ebostiwch marchnata@golwg.com

Yn gywir, *Sian Sutton*, Golygydd Cylchgrawn Golwg

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

**HYSBYSEBU YN CLONC**

*"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."*
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach.
£40.00 am chwarter tudalen.
£60.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**CHWEFROR**

8 Dyddiad derbyn enwau cystadleuwyr Eisteddfod yr Urdd.
21 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd.
27 C.Ff.I. Llanwenog - cyngerdd y panto yn Theatr Felinfach.

**MAWRTH**

2 Cwrdd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd - Caersalem Parcyrhos.
2 Noson y Llywydd Sefydliad Prydeinig y Galon Ardal Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan yn cynnal 'Cawl a Chân' yn y Brifysgol am 7.30y.h. Cyflwynydd : Mr Ifan Gruffydd, Tregaron. Artistiaid : Clychau'r Fedwen a Georgina Cornock. Tocyn: £12.00 drwy ffonio - 01570 422 625; 01570 422 099; 01570 423 692.
2 Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cynnal cyngerdd. Croeso cynnes i bawb! Am fwy o wybodaeth neu am docynnau cysylltwch â Meryl Davies ar 01559 384217 / 07791 305614.
6 Eisteddfod yr Urdd - Dawns Cynradd ac Uwchradd Cylch Llambed yn Ysgol Gyfun Llambed.
6 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd.
8 Eisteddfod yr Urdd (Cynradd) Cylch Llambed yn Ysgol Gyfun Llambed.
9 Eisteddfod yr Urdd (Uwchradd) Cylch Llambed yn Ysgol Gyfun Llambed.
10 Sioe Ffasiwn gan *duet a lan llofft* yng Ngholeg Prifysgol Cymru Llambed am 2.00y.p. Tocynnau ar werth am £15 ar gael o 01570422508 gan gynnwys te prynhawn. Elw tuag at Motor Neurone.
14 Arwerthiant blynyddol Cymdeithas Chwiorydd Aberduar Llanybydder yn y Festri am 7.00y.h.
14 Cwrdd yr Ifanc yn Noddfa am 4.30.
17 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Ceredigion (Cynradd) ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
20 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd.
21 Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd yr Urdd Rhanbarth ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
23 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Ceredigion (Uwchradd) ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
23 Cyngerdd Ysgol Eglwys Llanllwni yn neuadd yr ysgol am 7.30yh.

**EBRILL**

11 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen i ddechrau am 1.30y.p.
20 + 21 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyncoch.
21 Cyngerdd gan Côr Cwmann a'r Cylch ynghyd ag Aled Edwards, Eleri Owen Edwards, Kees Huysmans a pharti bechgyn Dyffryn Cothi yn Neuadd Bro fana Ffarmers am 7.30y.h. Arweinydd: Lyn Richards. Elw tuag at Ambiwlans Awyr ac Ymchwil y Cancr.

**MAI**

5 Eisteddfod Gadeiriol Talgarreg. Rhaglen oddi wrth: 01545 590383 neu 01545 590295.

# Cellan

**Ŵyrion newydd**

Yn ystod diwedd mis Ionawr fe ddaeth y newyddion da fod Berian a Beverley Wilkins, Tafarn y Fishers wedi cael ŵyr bach newydd - Ifan Teifi, mab i Lowri ac Edward, ac hefyd fe gafodd Gerwyn a Frances Jones, Maes-y-deri ŵyr ac wyres newydd cans ganwyd efeilliad i Lilian a Gareth yn Llambed.

**Trin gwallt symudol**

Os am dorri, setio, lliwio, blow dry neu berm yn eich cartref Ffoniwch Rhian ar 07971 853648.

Bydd CLONC yn dathlu pen-blwydd yn 30 oed y mis nesaf. Os hoffech ddanfon cyfarchion mewn - croeso i chi i'w danfon i: ysgrifennydd@clonc.co.uk

# Llanfair Clydogau

**John Metcalf, MBE**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i John Metcalf, Tŷ Yfory, Heol Llanfair, ar dderbyn MBE yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd am ei wasanaeth i fyd cerddoriaeth. Ganwyd John yn Abertawe yn 1946. Treuliodd rai blynyddoedd yn gweithio yng Nghanada cyn dod yn ôl i Gymru. Mae ei waith ym myd cyfansoddi yn cynnwys chwe opera, dwy ohonynt wedi eu comisiynu gan Gwmni Opera Cymru, ymhlith amrywiaeth eang o gerddoriaeth arall. Mae yn gweithio ar hyn o bryd ar gomisiwn opera yn seiliedig ar ddrama Dylan Thomas, Under Milk Wood. Rydym yn ymfalchïo fod gennym un o gyfansoddwyr mwyaf blaenllaw Cymru yn byw yn ein plith.

**Gwasanaeth Garolau**

Yn ôl y traddodiad, cynhaliwyd gwasanaeth carolau y pentref eleni yn Eglwys Santes Fair, yng ngofal medrus y Parch.Bill Fillery. Daeth cynulleidfa barchus ynghyd, a roedd naws Nadoligaidd y darllen a'r canu yn ein hatgoffa am neges bwysig y Nadolig. Braf oedd cael y cyfle ar ôl y gwasanaeth i gymdeithasu yn y neuadd dros baned a mins peis. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Penderfynwyd eleni fod casgliad y gwasanaeth yn mynd at elusen Motor Neurone.

**Canu Carolau**

Mae canu carolau o gwmpas y pentref cyn y Nadolig erbyn hyn wedi dod yn arferiad pleserus i'r cantorion a'r gwrandawyr. Ar y nos Lun, daeth tua phymtheg ynghyd y tu allan i'r neuadd a buom yn lwcus i gael noswaith sych ar ôl diwrnod gwlyb iawn, a threuliwyd y noson yn canu o amgylch rhan fynyddig y pentref. Ar y nos Fercher, Heol Llanddewi, a Heol Llanfair a gafodd y pleser o glywed y canu. Yna, nôl i'r neuadd erbyn naw i gymdeithasu a mwynhau cawl blasus wedi ei baratoi gan Gwyneth Jones, Noyadd. Diolch i Gwyneth am ei gwaith ac i bawb a fu'n fisi yn coginio mins peis. Cafwyd dwy noswaith lwyddiannus iawn. Diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u rhoddion hael. Casglwyd swm o dros bum cant a bydd yr arian hyn i gyd, a'r swm a gasglwyd yn yr eglwys, yn mynd at elusen Motor Neurone.

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Anwen Jones a Johnny Bell ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymunwn iddynt bob hapusrwydd yn eu cartref yn Maes Gwyn.

**Parti Nos Galan a Pharti 50 oed David James**

Hwyl a sbri oedd nod y parti Nos Galan eleni gan fod David James, Pandy, yn dathlu ei ben-blwydd yn bum deg yr un noson. Penderfynwyd cael thema a dewiswyd Vicars and Tarts! Erbyn tua naw o'r gloch roedd y neuadd yn orlawn ac yn edrych fel llwyfan mewn pantomeim. Roedd y rhan fwyaf wedi gwneud ymdrech arbennig i wisgo lan a chafwyd sbri neilltuol gyda rhai o'r gwisgoedd. Ymhlith y dynion a oedd wedi gwisgo fel menywod roedd David James.

Roedd y dewis o fwyd yn eang a blasus iawn fel arfer a'r gacen ben-blwydd a oedd wedi ei gwneud a'i haddurno gan Joyce, Tŷ'n Lôn yn edrych ac yn blasu'n ffantastig. Aeth y parti ymlaen gyda miwsig a dawnsio ymhell ar ôl hanner nos a roedd hi wir yn noson i'w chofio. Diolch i Katy, gwraig David, am ddarparu casgen o gwrw; i Lesley am y miwsig; i'r criw a fu wrthi yn addurno'r neuadd yn brydferth, ac i bawb am ddod â bwyd mor arbennig.

**Sefydliad y Merched**

Penderfynwyd cael cinio Nadolig y Sefydliad eleni ar Ionawr 14eg a dewiswyd Ysgubor Teile ym Mwlchyllan ar gyfer y dathlu. Cafwyd noswaith hwylus gyda 35 o wragedd a'u gwyr a'u partneriaid wedi dod i fwynhau'r noson. Roedd y bwyd o safon uchel a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn.



**Bowlio**

Mae bob yn ail nos Sadwrn wedi dod yn noswaith boblogaidd iawn yn Neuadd Llanfair, yn enwedig ers i ni gael mat bowlio byr newydd ein hunain gyda thua deugain yn dod yn rheolaidd. Ar Ionawr 21ain, cawsom y cyfle i gael ein dysgu sut i chwarae'n gywir a chael gwybod y rheolau gan y pum person a oedd wedi cael eu hyfforddi yn ystod y dydd gan Wyn Jones o Langadog. Tra bod rhai o'r timau yn bowlio mae'r lleill yn difyrru eu hunain mewn cystadleuaeth ddominos. Mae yn noswaith bleserus iawn gyda chymysgedd o gystadlu brwd, cymdeithasu a llawer o sbri.

# Cwmann

**C.Ff.I Cwmann.**

Ar y 30ain o Ragfyr cafwyd parti Nadolig llwyddiannus iawn yn Nhafarn y Talardd, Llanllwni. Fe aeth hanner cant ohonom ar fws o Gwmann i Lanllwni i fwynhau pryd blasus o fwyd, ac wrth gwrs ar ôl y bwyd roedd yn rhaid cael ychydig o gêmau. Noson hwylus o gymdeithasu yng nghwmni aelodau, ffrindiau a phwyllgor.

Wedi ymlacio a mwynhau dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd roedd hi'n bryd bwrw ati i ymarfer a pharatoi ar gyfer y gystadleuaeth Pantomeim sydd i'w chynnal yn Neuadd San Pedr ganol mis Chwefror. Mae'r aelodau eisoes wedi bod yn brysur yn dysgu llinellau ac yn ymarfer canu ac actio ynghyd â pharatoi set a gwisgoedd.

Ar nos Wener y 13eg daeth Mr a Mrs Terry a Iona Davies i roi dosbarth meistr i ni ar ffotograffiaeth. Cafwyd oriau o sbort a sbri yn tynnu lluniau ar gamerâu drud a phroffesiynol Terry ac yna cyfle i drawsnewid y lluniau ar y cyfrifiadur. Diolch i Terry am y tips ar sut i dynnu lluniau da.

Yr wythnos ganlynol cafwyd nifer o ymarferion panto ynghyd â chwis diddorol iawn yng nghwmni Mr Tomos Jones, Cadeirydd y clwb. Bu nifer ohonom yn pendroni ac yn crafu pen am amser yn ceisio cael hyd i'r atebion cywir.

**Diolch**

Dymuna Fiona Jones ddiolch o waelod calon i bawb am ei noddi i redeg hanner marathon Caerdydd. Braf iawn yw nodi ei bod wedi casglu dros £600 at Apêl Elain.

**Sefydliad y Merched Coedmor**

Cyfarfu'r gangen ar nos Lun Rhagfyr 17. Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd Mrs Mary Davies. Cydymdeimlodd a Gwnfil Griffiths ar farwolaeth ei Mam yng nhyfraith. Hefyd cydymdeimlodd Avril a Mary oedd hefyd wedi colli ei Mam yng nhyfraith. Darllenwyd llythyr Miss Gwenda Thomas yn diolch i'r aelodau oedd wedi paratoi a gweini'r te i'r henoed yn ystod y mis. Ar ôl trafod y materion busnes cafwyd noson o hwyl a mwynhad gyda gwledd yn cynnwys pedwar cwrs wedi eu paratoi gan dair o aelodau sef Mary, Gwen a Veronica. Diolchodd Avril i'r dair a rhoddodd gracer fawr Nadolig i bob un ohonynt. Enillwyd y raffl gan Brenda Morgan.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar nos Fawrth 3ydd o Ionawr gyda'r Llywydd, Mrs Mary Davies yn dymuno blwyddyn newydd dda i'r aelodau. Wedi trafod y materion busnes croesawodd y Llywydd ein siaradwraig y noson, Mrs Jean Palmer.Ei thestun oedd gwaith llaw cwiltio a cafwyd arddangosfa ddiddorol iawn ganddi yn cynnwys cap tebot, lliain canol bwrdd, ffedogau, clustogau ac amryw bathau eraill. Diolchodd Helena Gregson iddi am noson bleserus a diddorol. Enillwyd y raffl am fenig coginio rhoddedig gan Mrs Palmer gan Brenda Morgan. Enillydd raffl y mis oedd Morfydd Slaymaker. Edrychwn ymlaen i'n cyfarfod nesaf a'r y 6ed o Chwefror a 7.30yh. gan Carol Rees ar Reflexology.

**Gwellhad Buan**

Braf clywed bod Mrs Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen, ein gohebydd lleol, wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bronglais. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

**Babi newydd**

Llongyfarchiadau i Dafydd a Kay Lewis, Pantmeinog ar enedigaeth merch fach Elin Dafydd ar yr 20fed o Ionawr, chwaer i Megan Dafydd. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Ysgol Carreg Hirfaen**

Cawsom fore llwyddiannus iawn yn ddiweddar gan ennill rownd derfynol cystadleuaeth pêl rwyd y cylch. Cawsom gêm agos iawn yn erbyn ysgol Cwrtnewydd gyda'r ddau dîm yn brwydro hyd y diwedd i gael ennill safle yn y gêm derfynol.

Wedi llwyddo i ennill safle yn y rownd derfynol cawsom gêm glos iawn yn erbyn Ysgol Llanwnnen gyda Carreg Hirfaen yn fuddugol o 1 gol i 0.

Pob lwc i'r tîm a fydd yn cystadlu ar y lefel sirol ar y 3ydd o Chwefror.

Bore dydd Gwener y 13eg o Ionawr, buodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gweld pantomeim Martyn Geraint yn Theatr Felinfach, sef Jac a'r Goeden Ffa. Roedd yn berfformiad egnïol a doniol. Fe fwynhaodd pawb mas draw!

Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau fod yr ysgol wedi derbyn ei hail Faner Werdd cyn Nadolig. Llongyfarchiadau mawr.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Doreen Harris, 21 Heol Hathren ar farwolaeth ei chwaer Mrs Lena Williams, Llanybydder ac hefyd i deulu Fferm Felinfach ar golli mam, mam yng nghyfraith a mam-gu, Mrs. May Evans yn ddiweddar.

**Ysbyty**

Da deall fod y canlynol yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty am wahanol driniaethau: Mrs. Ruthie Williams, Rhiwlas, Mr. Jeff Douch, Glynceri a Tommy Price, Gelliwrol ar ôl ei anffawd.



**Priodas**

Ar 8fed Hydref yng Nghapel Carmel, Llansadwrn priodwyd Ceris, merch Mr a Mrs Cledwyn Morgan, Llwynfallen, Talyllychau a Llŷr mab Mr a Mrs Dilwyn Jones, Dremddu, Pont Creuddyn. Gwasanaethwyd gan y Parch. D Huw Roberts ac fe'i cynorthwywyd gan y Parch Stephen Morgan. Treuliwyd y mis mêl yng Ngwlad Thai. Mae'r ddau wedi ymgartrefu'n hapus yn rhif 20 Cwrt Deri. Dymunir iddynt briodas dda.

**Dyweddïo**

Llongyfarchiadau i Gemma Hope, Postgwyn ar ei dyweddïad a Trystan Potter. Pob lwc i'r dyfodol.

**Clwb 225 Rhagfyr**

1. 91, Aled Davies, Tremle, Cwmann, 2. 148, Mrs. .Joanna Morgan, Llyspenparc, Cae Ram, 3. 42, Mrs. Sian Evans, Waun, Llanybydder, 4. 145, Mr. David Williams, c/o Tŷ Hywel, Cwmann, 5. 49, Mrs. Maureen Evans, Brynmaen, Cwmann, 6. 137, Tomos ac Elen, Felindre Uchaf, Cwmann, 7. 230, Mr. Williams, Temple Bar, 8. 180, Mrs. Jean Thomas, Gwlith-y-waun, Cwmann, 9. 81, Eurig Davies, Manglas, Parc y rhos, 10. 15, Canon a Mair Richards, Maesteifi, Cwmann.

**Clwb 225 Ionawr**

1. 31, Ronnie Roberts, Brynview, Parc y rhos, 2. 62, Gwennie Douch, 1 Heol-y-fedw, Cwmann, 3. 20, Delyth ac Emyr Jacob, Frondeg, Pencarreg, 4. 178, Gethin Jones, Croesor, Cwmann, 5. 34, Tom James, 4 Heol-y-fedw, Cwmann, 6. 38, Mrs. Carol Doughty, Caris, Cwmann, 7. 218, Mrs V Edwards, Maesyllyn, Pencarreg, 8. 78, Mrs V James, 4 Heol-y-fedw, Cwmann, 9. 1, Mr & Mrs. G Lewis, Bronwydd, Llanbed, 10. 200, Eleri Thomas, 12 Treherbert, Cwmann.

**Clwb 125 Rhagfyr**

1. Mrs. Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann, 45, 2. Mrs. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68, 3. Mr John Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 109, 4. Miss. Cara Mair Harries, Llain Delyn, Cellan, 122, 5. Women's Workshop, Neuadd Sant Iago, Cwmann, 112, 6. Mrs. Marian Evans, Bronallt, Cwmann, 55, 7. Mrs M. Williams, Ddeunant Hall, Cwmann, 70, 8. Mrs. F. Bradier, Glyn Du, Cwmann, 99, 9. Mrs. Fiona Jones, Llys Teifi, Cwmann, 52, 10. Mrs. Llinos Jones, Araul, Cwmann, 17.

**Clwb 125 Ionawr**

1. Mrs. Geraldine Hardy, Tryweryn, Cwmann, 9, 2. Mrs. Marian Roberts, Cyswch, Cwmann, 53, 3. Mrs. Brenda Luker, 17 Treherbert, Cwmann, 2, 4. Mrs. Jean Davies, 2 Heol-y-maes, Pencarreg, 58, 5. Mrs. Myra Jones, 14 Bryn-yr-eglwys, Llanbed, 32, 6. Mrs. Carol Doughty, Caris, Cwmann, 15, 7. Mrs. Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 28, 8. Mr. D. J. Evans, Blaenbidernyn Isaf, Cwmann, 135, 9. Mrs. Helen Davies, Tan yr Esgair, Cwmann, 38, 10. Mrs. Eileen Morgan, Haulfryn, Cwmann, 125.

# Drefach a Llanwenog

**Ysgol Llanwenog**

Ar ddiwedd tymor prysur dros ben coronwyd y bwrlwm o weithgareddau Nadoligaidd gan berfformiad arbennig o'r 'Corn Ffactor' gan ddisgyblion yr ysgol. Cafwyd perfformiad prynhawn a'r hwyr yn y Llew Du yn Llanybydder a braf oedd gweld holl ddisgyblion yr ysgol yn actio, canu a dawnsio. Llywydd y dydd oedd Miss Rhian Thomas (Llechwedd) a diolch iddi am ei geiriau caredig a'i rhodd hael i'r ysgol. Cafwyd gwledd hefyd o fins peis a diod cynnes a baratowyd gan gogyddes yr ysgol, Eleri Davies. Diolch i bawb a gefnogodd a diolch arbennig i'r plant am weithio yn ddiwyd i greu sioe arbennig.

Mawr oedd y cyffro cyn y Nadolig pan aeth dosbarth y babanod ar ymweliad â Phentre Bach. Cafwyd bore hwylus o gwmpas y pentre a chyn ymlwybro tua thre cafwyd anrheg gan Siôn Corn.

Ddiwedd y tymor fe wnaeth Mrs Nia Evans orffen yn ei swydd fel cynorthwy-ydd dosbarth. Carem fel staff a disgyblion ddiolch iddi o waelod calon am ei chwmni hapus yn ystod y tair blynedd diwethaf a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Cafwyd gwledd yn Neuadd yr Eglwys cyn y Nadolig gyda noson o goginio yng nghwmni Mrs Eleri Lewis, Mrs Carys Davies a Mr Arwel Evans. Bu'r tri yn hynod brysur yn arddangos eu doniau coginio ac yn wir, cafwyd gwledd o fwyd blasus dros ben. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu a chefnogi a chodwyd swm anrhydeddus dros ben i'r ysgol.

Noson lwyddiannus arall a drefnwyd i godi arian i'r ysgol oedd noson arbennig yn y Grannell yng nghwmni y chwaraewr dartiau, Darryl Fitton Gwelwyd pobl leol yn ceisio curo'r chwaraewr profiadol a chynhaliwyd ocsiwn a raffl fawr ar y noson. Diolch i Christian a Claire Jones a'r teulu am drefnu'r noson a chodwyd £601.00 at goffrau'r ysgol. Diolch i bawb am gyfrannu ac am gefnogi.



Dyma Chloe Channel gyda Darren Fitton, Chwaraewr Dartiau Proffesiynol.

**Diolch**

Dymuna William James, Caellan, Llanwenog ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn a phob cymorth a dderbyniodd wedi ei ddamwain ym mis Medi llynedd.

**Cyfarchion**

Cyfarchion i William James, Caellan, sy'n dathlu pen blwydd arbennig iawn ddechrau Chwefror. Pawb yn falch dy fod yn gwella. Dymuniadau gore, Mattie.

**Diolch**

Dymuna Andrew a Rhian, Abertegan, ddiolch i bawb am y llu o gardiau, galwadau ffôn, rhoddion a'r holl ddymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Angharad.

Dymuna Mair Davies (gynt o Min y Llan) ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Ian a Carwyn Gwarcoed Einon ar eu llwyddiant yn y Ffair Aeaf yn ennill y Pencampwr a'r Is-bencampwr gyda'r Gwartheg Duon Cymreig. Daliwch ati!

**Eglwys Santes Gwenog**

Bu cyfnod y Nadolig yn un prysur gan ddechrau gydag arddangosfa goginio yn yr Eglwys fach. Dwy riant o'r ysgol, sef Carys Davies ac Eleri Lewis a'r athro Mr Arwel Evans fu'n dangos eu sgiliau tra'n cyflwyno arlwy o ddanteithion blasus i bawb eu profi. Gwnaed elw sylweddol i chwyddo coffrau'r ysgol.

Diolch i'r tri cogydd ac i bawb am eu cefnogaeth.

Daeth cynulleidfa dda i wasanaeth Naw Llith a Charol a braf oedd clywed Tomos a Jack Evans yn darllen rhai o'r llithiau. Eto, noswyl y Nadolig gwelwyd nifer dda o aelodau a ffrindiau yn ymuno yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid.

Yng nghanol y dathlu, trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Ray Davies, Crug. Brwydrodd Ray yn galed, ond bu ei hysbryd bywiog a'i hiwmor ffraeth yn ei chynnal hyd y diwedd. Bu'r angladd, hollol breifat, yn yr Eglwys a daearwyd ei gweddillion ym medd ei phriod Mydrian a'u hunig blentyn Alan.

Diolch i wragedd Cymdeithas yr Allor am eu haddurniadau Nadoligaidd yn ystod yr Ŵyl. Diolchwn i Andy a Jan Twelvetrees, Rhydiau, am rodd o goeden Nadolig hyfryd.

Wedi hir ddisgwyl, edrychwn ymlaen i weld y drysau gwydr wedi eu gosod. Bydd rhain yn rhannu'r Eglwys fach a gweddill yr Eglwys. Diweddglo hyfryd i'r holl waith sydd wedi'i gwblhau o'r diwedd!

Estynnwn groeso cynnes i Eglwys Sant Lucia, Llanwnnen a fydd yn ymuno ag Eglwysi Llanwenog, Llanybydder a Llanllwni ym mis Chwefror. Ein ficer y Parch. Suzy Bale fydd â gofal y bedair eglwys.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylus gan ddymuno adferiad llwyr iddynt. Da yw deall fod Bronwen Jones, Greenhill yn gwella wedi cyfnod yn Ysbyty Glangwili. Ein cydymdeimlad â Phil a Liz Tipping, Ottowa. Bu mam Liz farw dydd Nadolig.

**Y Gymdeithas Hŷn**

Daeth tua 20 o'r aelodau i gyfarfod mis Ionawr yn Neuadd y Pentref, |

Drefach, a chroesawyd pawb yn gynnes gan Dilwen George, y Cadeirydd. Dymunodd Blwyddyn Newydd Dda i bawb, a gwellhad buan i'r aelodau hynny sy'n anhwylus ar hyn o bryd.

Wedi mynd drwy rhan fusnes y Gymdeithas, croesawyd y siaradwr gwadd, sef Mr. Emyr Jones, Meysydd, Drefach. Mwynhawyd orig ddifyr yn ei gwmni yn edrych ar luniau a chael hanes ei daith ef a Gillian i'r Wladfa ym Mhatagonia yn 2009. Plethwyd hanes yr ymfudo cyntaf o Gymru ymysg y straeon, a gwelwyd sawl cofeb i gofio am y sefydlwyr cynnar. Braf oedd clywed am frwdfrydedd y brodorion yno yn dal i siarad Cymraeg, 5,000 ohonynt erbyn hyn, a nifer ohonynt yn dod draw i Gymru – ac i Lambed – i ddysgu a gloywi'r iaith. Roedd gweld golygfeydd mynyddoedd yr Andes, a'r daith ar draws y Paith yn wrthgyferbyniad rhyfeddol.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Emyr gan Irene Jones, yr Is-gadeirydd, gan ddiolch yr un pryd i wragedd Capel Bethel am drefnu'r lluniaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghapel Brynteg ar yr 8fed o Chwefror am 1.30yp, pan ddisgwylir Mr Bifan Morgan i'n hannerch.

**Sefydliad y Merched Llanwenog**

Yn y cyfarfod blynyddol cafwyd newidiadau ymysg y Swyddogion. (Mae'n werth nodi fod pob aelod yn cael gwaith o rhyw fath.) Y llywydd newydd yw Carol Denham – gan gymryd lle Liz Tipping a oedd yn ymddeol ar ôl tair blynedd yn y swydd. Diolchwyd yn fawr i Liz am ei gwaith egniol a brwdfrydig, a chyflwynwyd dwy ffrâm luniau iddi fel arwydd o ddiolchgarwch. Yn is-lywyddion mae Jackie Penney, Liz Tipping a Siân Davies. Diane Dageroglu yw'r ysgrifennydd, a Jan Green a Marion Hyde yw'r Trysorydd a'r Is-drysorydd.

Diolchwyd yn fawr i Beryl Lewin ac Annie Bowen am eu gwaith diflino yn rhedeg y clwb cynilo am flynyddoedd maith ac am ddanfon adroddiadau yn Gymraeg i'r wasg. Roedd pawb yn parchu eu dymuniad i fwynhau'r cyfarfodydd o hyn allan heb orfod gweithio! Roedd Ann Jones, Cadeirydd Ffederasiwn Ceredigion yn bresennol, a chafwyd anerchiad pwrpasol ganddi, gan longyfarch yr aelodau am eu caredigrwydd a'u cyfeillgarwch. Dymunodd yn dda i'r Sefydliad am y dyfodol.

Cafwyd noson hyfryd o gymdeithasu yng 'Nghegin Gareth'. Roedd e wedi paratoi bwyd blasus iawn, ac wedi meddwl am yr holl fanylion i wneud yn siŵr fod y noson yn un gofiadwy.

Michael Morgan oedd y siaradwr gwadd yn y cyfarfod diwethaf. Rhannodd ei atgofion am ddeugain mlynedd yn gweithio i'r Bwrdd Marchnata Llaeth. Roedd ganddo lawer o luniau diddorol o'r hen offer a ddefnyddiwyd yn Felinfach. Trist meddwl fod rhain yn arteffactau hanesyddol erbyn hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar yr 2il o Chwefror yn Eglwys Santes Gwenog. Cynhelir gweithdy gwneud Cardiau Ffolant. Croeso i bawb.

**Cartref Newydd**

Dymuniadau gorau i Huw, Marian, Elen a Fflur sydd wedi symud o Glasfan i'w cartref newydd yn Rhydyfelin, Drefach. Gobeithio y byddwch yn hapus yno.

**C.FF.I Llanwenog**

Ar nos Lun Rhagfyr y 5ed, bu'r clwb i Banto Nadolig yn Felinfach. Cafodd pawb noson i'w chofio a llawer o sbri.

Ar ddydd Sul Rhagfyr y 11eg fe gynhaliwyd gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg y Sir. Cafodd y clwb ddiwrnod arbennig o dda efo'r canlynol yn dod i'r brig, DAN 14: fel cadeirydd Sioned Fflur yn 2il, a Rhys Davies yn 3ydd, fel darllenwyr Meinir Davies yn 1af a Sioned Fflur yn 3ydd, ar tîm gorau yn yr adran yma oedd tîm Sioned Fflur, Meinir Davies ac Iwan Evans.

Yn yr adran o dan 16, cafodd Sioned Davies 1af fel Cadeirydd a Gwawr Hatcher yn 2il, fel Siaradwyr fe ddaeth Carwyn Davies yn 1af a Lauren Jones yn 2il a fel Diolchydd cafodd Sioned Fflur 1af, Meleri Davies yr 2il safle a Sophie Jones y 3ydd safle.

Roedd y clwb hefyd yn llwyddiannus yn yr adran o dan 21 efo Gethin Hatcher yn cipio'r 3ydd wobr am y Cadeirydd gorau, Elin Jones yn 1af fel siaradwraig ar tîm yn ennill y 3ydd wobr ar ddiwedd y dydd.

Yn yr adran o dan 26, fe ddaeth Gwennan Davies yn 2ail fel Cadeirydd, Gwawr Jones yn 2il fel

# ...parhad

Siaradwraig, a Cerys Jones yn 3ydd ar tim yn 1af ar ddiwedd y dydd. Ar ol diwrnod hir o gystadlu brwd fe enillodd Glwb Llanwenog y wobr 1af DA IAWN I BAWB!

Noson o grefftau efo Eleri oedd ar y 12fed, roedd tawelwch llwyr yn yr ystafell tra bod pawb yn canolbwyntio ar greu addurniadau Nadolig. Ar y nos Iau, cynhaliwyd Dartiau Twrci yn Nhafarn Cefn Hafod Gorsgoch. Roedd nifer o aelodau, cyn aelodau, a chefnogwyr yn bresennol.

Pan roedd pawb y tu fewn o flaen y tân yn paratoi am y Nadolig, mi roedd aelodau C.FF.I Llanwenog tu allan yn canu carolau er mwyn cefnogi elusen ambiwlans awyr Cymru. Casglwyd dros £1250 tuag at y clwb a'r elusen. DIOLCH YN FAWR IAWN i bawb a gyfranodd yn hael. Rydym wir yn ei werthfawrogi.

Dechreuwyd blwyddyn newydd C.FF.I Llanwenog ar y 9fed lle cwrddon ni yn Ysgol Cwrtnewydd am sosial, ffordd arbennig o ddechrau blwyddyn newydd yn nghwmni yr holl aelodau . Noson efo Dai y llywydd oedd ar yr 16eg, lle cafodd pawb noson llawn sbort a sbri yn chwarae bingo.

Ar y 22ain o Ionawr fe gynhaliwyd Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir, cafodd y clwb llawer o lwyddiant unwaith yn ragor, efo tîm Meinir Davies, Sioned Fflur a Rhys Davies yn 3ydd, yn yr adran o dan 16 fe ddaeth Bleddyn Jones yn gyntaf fel Cadeirydd a Lauren Jones yn ail, fe cafodd Carwyn Jones 1af fel Siaradwr, Sophie Jones 1af fel Diolchydd a Meinir Davies yn 2il. Fe ddaeth tîm Gwawr Hatcher, Sophie Jones a Lauren Jones yn gydradd cyntaf efo tîm Bleddyn Jones Carwyn Davies a Daniel Morgans.

Yn y catagori o dan 21 cafodd Lowri Davies 1af fel Cadeirydd, Gethin Hatcher 1af fel Siaradwr a Elin Jones yn 2il, efo'r tîm hefyd yn 1af . Yn yr adran o dan 26 cafodd Cerys Jones lwyddiant fel siaradwraig yn dod yn 2il ac fe ddaeth y tîm yn 3ydd, unwaith eto Llanwenog oedd yn fuddugol ar ddiwedd y dydd.

Cafodd y clwb lwyddiant yng nghwis y Sir yn ddiweddar hefyd yn dod yn 2il ar ddiwedd y noson. Fyddwn hefyd yn cystadlu yn nghystadleuaeth Panto a byddwn yn cynnal cyngerdd o'r panto ar y 27ain o Chwefror yn theatr Felinfach DEWCH YN LLU I'N CEFNOGI! a cofiwch os oes ganddych unrhyw ddiddordeb mewn ymuno efo'r clwb neu angen rhagor o wybodaeth ewch ar ein gwefan sef: www.cffillanwenog.org.uk

# Pencarreg

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Mr & Mrs Jim Jenkins, Llwyn Iorwg ar enedigaeth eu baban bach, Mair. Pob dymuniad i chwi eich dau yng nghwmni eich merch fach.

**Adferiad Iechyd**

Yn dilyn llaw-driniaeth dymunwn adferiad iechyd i Margaret a Brynmor, Blaenmaes. Da yw deall eich bod chi eich dau yn gwella ac anfonwn ein cofion gorau atoch.

**Cofion**

Anfonwn ein dymuniadau gorau a chofion gwresog tuag at Maud Jones, Maes Isaf sydd ar hyn o bryd yng nghartref Maes Llywelyn, Castell Newydd Enlyn. Rydym yn meddwl amdanoch Maud.

**Patagonia**

Llongyfarchaidau i Sian Elin Williams, Muriau Gwyn, Pencarreg, sydd wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru a'r Urdd i wneud gwaith gwirfoddol ym Mhatagonia yn rhan o waith dyngarol Urdd Gobaith Cymru. Roedd Sian Elin yn aelod o'r Urdd yn ystod ei chyfnod yn ysgol gynradd Llanybydder ac ar hyn o bryd mae yn aelod o aelwyd yr Urdd yn Llambed ac hefyd yn aelod o Fforwm Ieuenctid Ceredigion. Mae Sian Elin ym mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Llambed.



Yn ystod ei chyfnod ym Mhatagonia bydd yn gwneud pob math o waith gwirfoddol yn cynnwys gwneud sesiynau gyda phlant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yno. Bydd hefyd yn ymweld â thrigolion y Wladfa sydd o dras Cymraeg; yn gweithio mewn ysgolion i blant difreintiedig a phlant ag anghenion arbennig; yn cynorthwyo gyda phrosiectau cymunedol, ac yn cynrychioli Cymru yn Eisteddfod y Wladfa.

Mae rhaid codi arian at y daith ac mae Sian Elin yn bwriadu gwneud gwaith yn ei chymuned a chynnal sawl gweithgaredd noddedig. Mae codi arian trwy wneud hyn hefyd yn codi ymwybyddiaeth am Batagonia a'r cysylltiad cryf sydd gan Gymru gyda'r Wladfa. Bydd yr arian sydd yn cael ei godi yn cefnogi gwaith Menter Patagonia. Mae'r prosiect yn cefnogi ac yn datblygu gwaith cymuned y Wladfa.

**Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg**

Parhau wnaeth aelodau y clwb eleni eto i gerdded llwybrau cyhoeddus y Plwyf ar ddydd Sant Steffan dan arweinyddiaeth Cynghorwr y Gymuned, Tony a'i wraig Sheila Lewis. Cychwyn y daith ger Tyhowel a cherdded i'r chwith heibio Pantycerrig, Pantrhew a Phantrhedyn a gweld i'r dde Pantmeinog a Bryngolau. O fewn ugain llath, cerdded dros gwter Nant Eiddig sydd yn tarddu o ffynnon y Gorsfigan, er mae'n anodd cael lleoliad y ffynnon oherwydd y coed pinwydd sydd wedi eu plannu yno. Cerdded dros fanc Blaencwm ac i lawr drwy glos fferm i hewl Esgairdawe. Heibio Penhewl, Cwmcanol a Bryn yr Ysgol a heibio fferm Esgairdawe. Cerdded ymlaen tua Tredomen a chymryd gwyriad dros y banc ar bwys Tyngrug. Ni fu'r tywydd yn garedig iawn ac oherwydd hynny ni welsom Fannau Sir Gâr na Phen y Fan ar y gorwel. Ein deheuad oedd dangos yr Hen dy ffarm, cartref D. J. Williams, a hen gapel Esgairdawe ond gwnaeth y niwl trwchus roi llen ar y cyfan. Ger Penrhiw, ailymuno â'r llwybr a cherdded heibio'r 'trig point' 352 medr am Troedyrhiw a Phanteg gan groesi Nant Tawe sydd yn tarddu'n agos at Benbryn a chae Blaendyffryn lle mae cae 'Plant Life'. Cae diddorol iawn yw hwn ar brynhawn o haf er mwyn astudio byd natur. Diddorol yw nodi fod Nant Tawe yn llifo i'r môr ym mae Caerfyrddin a'r Eiddig islaw Aberteifi. Wedyn, cofio fy mod wedi darllen yn llyfr Richard Colyer 'Porthmyn Cymreig' ei fod yn tybio fod porthmyn yn cerdded gwartheg o Sir Aberteifi drwy Barcyrhos a thros Gaer Gelliddewi tua fferm Esgair a draw am hewl Esgairdawe. Dyma, fwy neu lai, y llwybr y cerddasom. Pwrpas hyn yn yr hen ddyddiau oedd arbed talu tollau yn Llambed a Chwmann. Diolch i'r deg aelod am wneud cwmni da ar ddiwrnod mor wlyb.


Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb
Sianti
Uned 2 Monumental Works, Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus
Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top
Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Teithio
Cyfrifoldeb
Yswiriant tŷ/cynnwys
Fferm a busnes
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

# Llanbedr Pont Steffan

**Pen-blwydd Arbennig**

Dyfalwch pwy sy'n dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar Chwefror 10fed? Neb llai na Janet Evans, Haulfryn, Maesyllan, cynorthwywraig ardderchog Dudley! Mae e wedi addo galw heibio i baratoi pryd bach! Pen-blwydd hapus, Janet. Gobeithio cewch chi ddiwrnod i'w gofio ond peidiwch â mynd dros ben llestri wrth ddathlu!

**Shiloh a Soar**

Fe ddaeth tyrfa luosog iawn i'r Festri yn Shiloh ar nos Wener, Tachwedd 25 o dan lywyddiaeth Mair Lewis a hynny gan fod Ifan 'Ma. Ifan Gruffydd Tregaron oedd y gwestai ac mi gafwyd ganddo hanes hynod ddiddorol a doniol am ei fywyd o'i blentyndod at y presennol. Soniodd am ei fagwraeth ar y ffarm fynydd yn Nhregaron, ei gyfnod braidd yn anhapus yn yr ysgol uwchradd a'i atgasedd at chwaraeon ac yntau'n ceisio ffugio anaf er mwyn osgoi ymarfer rygbi ! Roedd dylanwad Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn fawr arno ac aeth ati i ysgrifennu dramâu ac ennill dros Gymru am y ddrama orau a'r prif actor. Mi wnaeth hynny arwain at y gwahoddiad i greu cyfres ar y teledu gyda Gillian Elisa a phwy all anghofio y cymeriad Tomi! Ar ôl llwyddiant y gyfres deledu, mi dderbyniodd anrhydedd bellach drwy gael ei wahodd i gymryd rhan yn un o ddramâu Shakespeare yn Llundain a chael cyfarfod Syr Anthony Hopkins a Syr Geraint Evans. Roedd y gŵr ifanc swil o Dregaron a adawodd yr ysgol yn 14 oed wedi cyrraedd yr uchelfannau ym myd actio

Roedd ei araith gartrefol yn llawn hiwmor, yn enwedig wrth iddo sôn am hanes ei briodas ac yntau'n ceisio osgoi unrhyw gyhoeddusrwydd am ei ddiwrnod mawr! Ond bu troeon trist yn ei fywyd hefyd. Roedd colli ei rieni fel unig blentyn yn golled fawr ynghyd â cholli ei gyfaill annwyl, John Llwyngaru. Bu ei afiechyd ddechrau'r wythdegau hefyd yn gyfnod anodd ond mi diolchodd am y gofal a gafodd yn Ysbyty Bronglais.

Daeth ei gyflwyniad cofiadwy i ben wrth iddo sôn am ei grefydd. Er iddo ofyn sawl cwestiwn pan yn ifanc am ei ffydd, roedd clywed y diweddar Dr Martin Lloyd yn pregethu yn Baker Street, Aberystwyth wedi ei argyhoeddi yn llwyr am y ffordd ymlaen. Mae bellach yn aelod teyrngar a ffyddlon yn eglwys fach Rhiwdywyll a Bwlchgwynt, Tregaron. Bydd hon yn noson a erys yn hir yn y cof ac yn noson i'w thrysori fel y cyfeiriodd John Davies, Bryncastell wrth wneud y diolchiadau.

Yr ysgolhaig Dr Enid Jones o Beniel Caerfyrddin oedd y gwestai yn y Gymdeithas Ddiwylliadol brynhawn dydd Iau, Rhagfyr 5ed. Cyfeiriodd Twynog Davies, Llywydd y cyfarfod at y ffaith fod Enid wedi ennill doethuriaeth am ei gwaith ymchwil ar y nofel Gymraeg.

Sôn am ei thaith ddiweddar i wlad Rwsia a wnaeth a hynny drwy gyfrwng lluniau ardderchog. Gwelwyd gogoniant ac ysblander y Sgwâr Coch ym Moscow a oedd yn ôl yr hanes yn adfeilion cyn codi'r adeiladau moethus â sawl tŵr wedi ei wneud o aur pur. Gwelwyd cof golofn Lenin ac adeilad i gofio am y frwydr yn erbyn y Natsïaid yn ystod yr ail ryfel byd. Roedd ei haraith yn llawn hanes am y ffordd roedd y wlad ryfeddol yma wedi datblygu yn foesol ac yn grefyddol, yn arbennig yn ystod y ganrif ddiwethaf. Ond fel sawl gwlad arall, mae yna gyfoeth enfawr ynghyd â thlodi a thrist oedd clywed fod plant, hyd yn oed o'r dosbarth canol, yn cael eu dysgu i ddwyn ar y strydoedd ac oddi ar ymwelwyr. Owen Jones gafodd y fraint i ddiolch i Enid am ddod â hanes a chyfoeth a rhai o broblemau dwys y wlad yn fyw i ni ac am gyflwyno ei haraith mewn ffordd mor gartrefol a didwyll.

Joan a Tim Jones, Llainwen, Ffordd Glynhebog oedd y ddau westai yn y Gymdeithas Ddiwylliadol brynhawn dydd Gwener, Ionawr 20. Fel y gwyddom, mae Joan yn arbenigo mewn gwaith llaw ac mi gyflwynodd mewn ffordd gwbl gartrefol enghreifftiau o'i gwaith dros y blynyddoedd. Roedd hyn yn cynnwys brodwaith neu sampler o Gapel Llwynpiod, Y Mileniwm, rhan o awdl Dic Jones i'r Cynhaeaf ac amryw enghraifft arall o'i gwaith cywrain. Soniodd Joan am ei dyled i'r diweddar Mari James, ac i Merched y Wawr a Sefydliad y Merched am eu hanogaeth dros y blynyddoedd i fynd ati i gystadlu ac mae hynny i gyd wedi dwyn ffrwyth gan ei bod wedi ennill nifer o wobrau yn lleol a chenedlaethol. Talodd deyrnged hefyd i Jean Ekland o Aberystwyth - mae tua un-deg chwech o wragedd yn cyfarfod yn rheolaidd o dan ei hyfforddiant er mwyn perffeithio a meistroli eu crefft. Dywedodd bod eisiau golau da, amser ac amynedd i wneud gwaith llaw ond i'r gynulleidfa luosog a oedd yn bresennol roedd hi'n amlwg bod angen oriau o ymarfer a dyfal barhad hefyd. Roeddem i gyd wedi rhyfeddu at ei gallu a'i harbenigedd ac at safon ei gwaith.

Mae arallgyfeirio o fod yn ffarmwr llaeth i fod yn ffotograffydd yn gam enfawr a dyna oedd newid byd i Tim. Bu'n aelod o glwb camerâu Llangeitho a dod o dan ddylanwad Eric Hall. Mentrodd brynu camera drud yn 1976 ac mi dyfodd yr hyder. Penderfynodd werthu'r ffarm a chanolbwyntio ar ddatblygu ei fusnes newydd a hynny yn bennaf ar ôl symud i Lambed. Fe fuddsoddodd mewn camerâu newydd a'r holl offer a oedd yn angenrheidiol i wynebu'r oes ddigidol a'r cyfrifiadur sydd yn rhan annatod o ffotograffiaeth y dyddiau yma. Mae'r cyfan bellach yn hanes gan y gwyddom gymaint o alw sydd am wasanaeth Tim a'i agwedd gwbl broffesiynol at ei waith. Dangoswyd nifer o sleidiau ar ddiwedd y cyfarfod o gymeriadau a llefydd lleol a chenedlaethol ac mi gafwyd hwyl fawr yn dyfalu yr atebion. Gwenda Richards oedd y Llywydd ac mi dalwyd y diolchiadau am brynhawn cofiadwy gan Glenys Morris.

**Carol Cerdd a Chân**

Er gwaethaf y tywydd gaeafol, fe ddaeth cynulleidfa luosog iawn ynghyd i'r noson flynyddol dan nawdd Cymorth Cristnogol a hynny eleni eto y nos Sadwrn olaf cyn y Nadolig. Diolch i Eglwys Sant Pedr am ei chroeso arferol gan mai dyma'r bedwaredd flwyddyn ar hugain i'r achlysur unigryw yma gael ei gynnal. Estynnwyd croeso gan y Deon Gwlad, Mr Phillip Davies a braf oedd cael croesawu yn arbennig Mrs Cathryn Hughes, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion a Mr Hag Harries, Maer y Dref. Yr artistiaid eleni oedd Côr Meibion Cwmann, Ysgol Carreg Hirfaen, Parti Sarn Helen a Gernant, a phlant yr Urdd a'r Ysgol Uwchradd. Crëwyd naws hyfryd Nadoligaidd eleni eto wrth i amryw dalentau lleol gyflwyno hanes y Geni mewn ffordd gwbl hamddenol a chartrefol.

Crëwyd record eleni wrth i elw'r noson gyrraedd tua £730 a diolch i bawb am eu haelioni. Diolchodd Mrs Mair Richards, Cadeirydd cangen leol Cymorth Cristnogol i'r holl artistiaid am eu cyfraniad gwerthfawr at lwyddiant y noson ac i bawb arall

a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at yr achos teilwng yma.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i David a Helen Rice gynt o Madryn, Rhodfa Glynhebog, ar enedigaeth eu mab Harri, ar Ragfyr yr 21ain, ŵyr cyntaf Ieuan a Margaret Roberts. Maent yn nawr yn byw yn Dryslwyn.

**Cylch Cinio**

Croesawyd Rhiannon Lewis o Gwmann yn westai i gyfarfod y 1af o Ragfyr. Cyfeiriodd y Llywydd, y Bnr. Elfan James, ati fel un sy'n adnabyddus ledled Cymru yn arbennig am ei gwaith gydag Urdd Gobaith Cymru. Mae yn ymddiriedolwr yr Urdd, yn gyn gadeirydd ac yn aelod o fwrdd Canolfan Mileniwm Cymru. Bu'n bennaeth yr adran gerddoriaeth yn Ysgol Uwchradd Tregaron am nifer o flynyddoedd a bellach mae yn is-bennaeth yr ysgol.

Yn ei chyflwyniad yn sôn am yr Urdd dywedodd bod ei phrofiadau cynnar, cefnogaeth ei rhieni, dod yn aelod o adran ac aelwyd Llambed i gyd yn ddylanwadau pwysig iawn arni. Roedd ganddi atgofion hapus am fod yn aelod o'r côr llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd, a chyfeilio i'r parti yn 10 oed. Tra yn y coleg yng Nghaerdydd bu'n aelod o Aelwyd Caerdydd a Chwmni Drama'r Urdd.

Cawson ein hatgoffa ganddi y bydd yr Urdd yn 90 oed yn 2012, wedi ei sefydlu gan Syr Ifan ab Owen Edwards ym mis Ionawr 1922. Bellach mae gan y mudiad dros 52,000 o aelodau yn yr adrannau a'r aelwydydd, tua 10,000 o wirfoddolwyr a 300 o staff. Soniodd hefyd am yr amrywiol atyniadau a'r cyfleusterau newydd sydd ar gael. Yn flynyddol, mae'r gwersylloedd - Llangrannog, Glan Llyn a Gwersyll y Bae, Caerdydd - yn denu miloedd o bobl ifanc. Yn 2012, mae gwersyll Llangrannog yn 80 oed ac mae'n denu tua 18,000 o ymwelwyr yn flynyddol, ac mae hynny'n gyfraniad sylweddol i'r economi leol. Roedd atgofion hapus ganddi hi - a gan rai o aelodau'r Cylch - am wersylla yng Nglan Llyn a phwysleisiodd bwysigrwydd y gwersyll yn y Bae a'r bartneriaeth yng Nghanolfan y Mileniwm.

Mae'r cylchgronau, y safle a siop ar y We a'r chwaraeon gan gynnwys Gêmau Cymru oll yn llwyddiant mawr. Sefydlwyd cysylltiadau gyda'r Wladfa a gwledydd eraill ac mae dathlu diwrnod Cenedlaethol Y Neges Ewyllys Da blynyddol yn holl bwysig i'r mudiad. Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop. Roedd yr Eisteddfod yn Llanerchaeron yn llwyddiant arbennig ac edrychir ymlaen at yr ymweliad â Glynllifon yn Arfon yn 2012, Penfro yn 2013 a Dolgellau yn 2014.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r siaradwraig gan y Parch. Goronwy Evans. Yr oedd ei chefnogaeth hi, ynghyd â chefnogaeth y teulu, i'r eisteddfod yn Llambed a'i brwdfrydedd am waith yr Urdd yn nodedig, meddai.

**Rhaglen Dudley**

Da iawn Janet Evans a Twynog Davies am gynorthwyo Dudley yn ei raglen o Lanbed pan fu'n bwydo gwirfoddolwyr Clonc. Bydd y rhaglen yn parhau ar wefan S4C tan y 15fed Chwefror.

**Diolch yn fawr**

Dymuna John ac Elizabeth Warmington a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o

# Llanbedr Pont Steffan

gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar yn eu profedigaeth o golli Claude, brawd John, yn Aberhonddu.

**Cylch Cinio**

Aelod newydd o'r Cylch, yr Athro Densil Morgan, Profost a Phennaeth Ysgol Ddiwynyddiaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod Ionawr. Croesawyd ef yn gynnes gan y Llywydd y Bnr. Elfan James.

Diolchodd yr Athro am y croeso a mynegodd ei werthfawrogiad am y croeso yn gyffredinol yn Llambed. Yr oedd gwreiddiau ei deulu ef yn ddwfn yn ne Sir Gâr a Morgannwg, ond fe'i ganwyd yn nhalaith Ohio. Dychwelodd i Dreforys yn bedair oed ac yno, y cartref, gyda'i fam a'i daid a nain, y capel a'r ysgol gynradd oedd yn ganolog i'w brofiadau a'r dylanwadau arno. Cafodd ei addysg uwchradd yn ysgol Penlan, Abertawe, ac yn 1972 aeth i Goleg y Bedyddwyr ym Mangor a dilyn cwrs BD. Wedi graddio, dilynodd gwrs BA yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Treuliodd flwyddyn yn weinidog yn Sir Fôn cyn mynd i Rhydychen a dilyn cwrs ymchwil D Phil am dair blynedd, 1979-82.

Bu'n weinidog ym Mhenygroes, ardal Cross Hands, hyd 1988, cyn ei benodi yn ddarlithydd yn Adran Astudiaethau Crefydd, Prifysgol Cymru, Bangor. Ei arbennigedd yw diwynyddiaeth Karl Barth a hanes crefydd yng Nghymru. Maes o law fe'i dyrchafwyd yn bennaeth yr Adran ac yn Ddeon Cyfadran. Anrhydedd a braint iddo oedd derbyn gradd DD Prifysgol Cymru yn 2006.

Mae yn dal cysylltiad academaidd agos â Phrifysgol Princeton. UDA. Yr oedd yn hedfan yno am y tro cyntaf pan ddigwyddodd trychineb 9/11; yr ail dro, yn 2008 roedd etholiad yr Arlywydd, a gyda'r pasport sydd ganddo oherwydd ei fod wedi ei eni yn America manteisiodd ar y cyfle i bleidleisio - i Barack Obama. Cyhoeddodd lyfryn yn cynnwys rhai o'i brofiadau dros y cyfnod hwnnw.

Wrth edrych i'r dyfodol, ei ddyhead yw y cyflawnir yr holl gynlluniau a datblygiadau ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant er budd y gymuned a'r genedl.

Cynigiwyd y diolchiadau gan Y Bnr. John Phillips.

**Merched y Wawr**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar nos Lun 9fed Ionawr, gydag un o'r Llywyddion sef Dilwen Roderick yn dymuno blwyddyn newydd dda i'r aelodau, a chanwyd cân y Mudiad i gyfeiliant Janet Evans. Cafwyd adroddiad mis Rhagfyr a diolchwyd i bawb oedd wedi bod yn canu carolau yn Hafan Deg. Aeth 22 o'r aelodau i'r gwasaneth Plygain yng Ngholeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Yr oedd pawb wedi mwynhau'r noson a chafwyd gwydraid o win cynnes a "mince pie".

Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai oedd wedi cystadlu yn Theatr Felinfach a dod yn 4ydd.

Gŵyr gwadd y noson oedd Mr Heulin Roderick a Mr Hywel Roderick. Dangosodd Heulin ffilm o waith dosbarth 5, Ysgol Ffynonbedr a oedd wedi ennill gwobr yng nghystadleuaeth ffilmiau Ceredigion. Y plant oedd wedi scriptio a ffilmio'r film yn rhoi hanes Sir Herbert Lloyd a'r ddafad ddu. Cafwyd adroddiad a lluniau gan Hywel am y gwledydd yr oedd wedi bod ynddynt ac am ei daith i ben mynydd Kilimanjaro i godi arian i elusen cancr. I ddiweddu dangosodd Heulyn a Hywel recordiad o'r gangen yn perfformio mewn cyngerdd ddwy flynedd ar hugain yn ôl. Creodd hyn dipyn o syndod a hwyl. Diolchodd Morfydd Slaymaker i'r ddau am roi o'u hamser i'n diddanu. Diolchodd hefyd i'r rhai a fu'n gweini'r te sef Mrs Gwynfyl Griffiths, Mrs Glesni Thomas a Mrs Brenda Morgan. Enillodd Mrs Mair Richards raffl mis Rhagfyr a Mrs Glesni Thomas enillodd raffl mis Ionawr. Bydd y cyfarfod nesaf Nos Lun Chwefror 13eg pryd y disgwylir Mr Emrys Davies, Rhydaman i'n hannerch.



**Ysgol Sul Noddfa**

Mae'r plant wedi mwynhau gwyliau haeddiannol yn dilyn bwrlwm a phrysurdeb y Nadolig. Cafwyd oedfa arbennig i ddathlu'r Wyl a phawb o'r lleiaf i'r hynaf yn cyflawni eu gwaith yn rhagorol. Roedd pob un o gymeriadau Drama'r Geni yn seren a'r gwisgoedd traddodiadol a chyfoes yn ychwanegu at fwynhad y gynulleidfa luosog. Galwodd Santa heibio i gyflwyno anrhegion i bawb a daeth prynhawn pleserus a bendithiol i ben gyda'r plant a'r oedolion yn mwynhau te parti ardderchog. Derbyniodd Janet anrheg gan Tomos ac Osian Jones ar ran yr Ysgol Sul fel gwerthfawrogiad am ei gwasanaeth diflino ar hyd y flwyddyn. Ymatebodd hithau mewn geiriau pwrpasol gan ddiolch yn ddiffuant i'r plant, i'r bobl ifanc ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cymorth parod bob amser.

Mae'r Ysgol Sul yn ddyledus iawn i Alun ac Eifion Williams am eu rhoddion hael o ffrwythau i'r plant a'r bobl ifanc eleni eto.

Mae'r paratoadau wedi dechrau ar gyfer Oedfa'r Ifanc a gynhelir ar Sul y Mamau, sef 18 Mawrth am 4.30 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Lois Price, Llangwm, Heol y Bryn ar ei llwyddiant yn pasio arholiad piano Gradd 1 gyda theilyngdod dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

**Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg**

Ar 4ydd o Ionawr cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af. Maggie Vaughan, Felinfach, 2il. Gwendoline Jones, Llanybydder, 3ydd. Dai Davies, Pensinrig, Cellan, Merched: 1af. June Mason, Rhes Harford, Llambed, 2il. Karine Evans, Pennant, 3ydd. Mari Evans, Llanwnnen, Carden Miniature: Dynion – Iorwerth Evans, Llangybi, Merched – Beryl Roach, Brohenllys, Feilnfach. Bwrw Allan: Enillwyr – Ray Jenkins, Llanybydder a Mair Davies, Pensinrig, Cellan, Ail – Peggi Davies, Brohenllys a Mari Evans, Llanwnnen.

Enillwyr 18fed o Ionawr – Dynion: 1af. Richard Stevens, Heol y Goedwig, Llambed, 2il. Ifan John Jones, Brohenllys, Felinfach, 3ydd. Mai William, Tregaron, Merched: 1af. Margret Jones, Pentrebach, Llambed, 2il. Catrina Davies, Aberaeron, 3ydd. Morfudd Slaymaker, Llambed, Carden Miniature: Dynion – Gwen Davies, Llanwnnen, Merched – June Mason, Rhes Harford, Llambed.


Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref





Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.
Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613
*Cwmann*
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes
*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach*
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG
Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd
13 Stryd y Bont, Llambed
01570 422009
Ar agor:
12:00-14:30 a 17:00-23:00
Cynigion arbennig bwffe ac amser cinio
Darllenwch ein bwydlen a'n cynigion arbennig ar Facebook

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Bwrw Allan: Enillwyr – Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed a Morfudd Slaymaker, Llambed, Ail – Ceri Lloyd, Ffostrasol a Mai Williams, Tregaron. Bydd Gyrfaoedd Chwist mis Chwefror ar y 15fed a'r 29ain. Croeso cynnes i bawb.

**Pen-blwydd Arbennig**

Bydd Janet Evans, Haulfryn, 1 Maesyllan yn dathlu achlysur arbennig ar 10 Chwefror. Pen-blwydd hapus iawn, Janet a diolch am yr holl waith gwirfoddol rydych chi'n ei gyflawni yn Llambed a hynny bob amser gyda gwên. Mwynhewch eich diwrnod a dymuniadau gorau am iechyd da am flynyddoedd eto i ddod.

**Cyfansoddwraig Lwyddiannus**

Llongyfarchiadau calonnog i Mair Long, gynt o Lambed, athrawes gerdd yn Ysgol Gynradd y Wern am ennill cystadleuaeth "Carol yr Wyl" ar raglen Wedi 3 ar S4C ddiwedd y flwyddyn. Gwelwyd Côr yr Ysgol yn perfformio'r Garol "Bocs o Gariad", y geiriau a'r gerddoriaeth wedi eu cyfansoddi gan Mair ar Wedi 3 a Wedi 7. Daeth y Garol i'r brig o blith nifer helaeth o geisiadau gan dderbyn canmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid Gwenda Owen ac Emlyn Dole. Dyma'r eilwaith i Mair ennill y gystadleuaeth hon.

Bu Côr Ysgol y Wern dan arweiniad Mair yn brysur iawn yn ddiweddar yn canu mewn cyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf er budd Ymchwil y Galon; mewn Bore Coffi yn Neuadd y Ddinas Caerdydd i godi arian at elusen Maer Caerdydd, sef Gofal Cancr, a hefyd yn Eglwys Ararat gyda Chôr Merched Canna yn codi arian tuag at Hosbis George Thomas.

Mae'r Côr yn edrych ymlaen yn eiddgar at rannu llwyfan gyda nifer o sêr enwog y West End mewn cyngerdd arbennig iawn yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd yn y dyfodol agos er budd Gofal Cancr y Fron.

**Bedyddwyr**

Roedd nifer dda yn bresennol yn Noddfa ar Ionawr y cyntaf mewn oedfa unedig wedi ei llunio gan Janet ar gyfer aelodau Bethel, Caersalem a Noddfa. Croesawyd pawb yn gynnes ac offrymwyd gweddi agoriadol gan John Morgan, Noddfa. Thema'r oedfa oedd Blwyddyn newydd, Cyfleoedd newydd. Soniwyd am gyfle newydd i wrando fel gwnaeth Samuel, cyfle newydd i weithio dros Iesu a chyfle newydd i weddio dros ein heglwysi gyda'r gobaith o weld yr efengyl yn cael ei lle o'r newydd yng nghalonnau pobol Cymru a'r byd. Darllenwyd rhan o'r Gair gan John Elfyn Jones, David Evans a Margaret Jones o Noddfa ac offrymwyd gweddi gan Myfanwy Bryce, hefyd o Noddfa. Cyhoeddwyd yr emynau gan Eddie a Jennie Thomas Bethel, Irene Price Caersalem a Tudor Davies Noddfa a'r llefarydd oedd Janet.

Diolchodd Alun Williams yn ddiffuant i bawb oedd wedi cymryd rhan a thalodd deyrnged uchel i Janet am drefnu a pharatoi'r oedfa ar ein cyfer. Teimlai pawb yn bresennol mai da oedd cael cyfle i ddod ynghyd i addoli mewn oedfa fendigedig ar ddechrau blwyddyn newydd.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf.

**Aelwyd yr Urdd**

Erbyn i Clonc Chwefror gyrraedd y siopau bydd cyfarfod agoriadol tymor Aelwyd yr Urdd wedi bod. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd yr aelodau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn cynnwys Steddfod Ddwl, dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90 oed, noson o gêmau amrywiol ac ymweliad â'r Ganolfan Hamdden. Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 21 Chwefror yn Neuadd Ysgol Ffynnonbedr o 7 hyd 8.15 o'r gloch. Pob lwc i bawb fydd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod Gylch Uwchradd a gynhelir yn yr Ysgol Gyfun ddydd Gwener 9 Mawrth am 1 o'r gloch. Mae angen i enwau'r cystadleuwyr gyrraedd Janet erbyn 8 Chwefror.

**Hanes Llambed**

Yng Nghyfarfod cyntaf 2012 cafodd yr aelodau eu swyno gan ddarlith ar y Doctor Thomas Phillips o Neuaddlwyd a'i Academi. Yn gyntaf, eglurodd y siaradwr, Bryan Jones, y dryswch sy'n deillio o'r ffaith bod sawl Thomas Phillips yn enwog yn nechrau'r 1800au ac aeth ymlaen i ganolbwyntio ar Thomas Phillips, Neuaddlwyd. Roedd diddordeb Bryan yn y pregethwr a'r athro carismatig yn deillio o goeden deuluol Bryan. Roedd honno yn dangos fod Thomas Phillips yn hen, hen, hen dad-cu iddo. Mae'r ymchwil i hanes ei berthynas wedi troi yn astudiaeth academaidd a fydd yn arwain at gyhoeddi llyfr yn y dyfodol.

Roedd cefndir teulu Thomas Phillips (1772 – 1842) yn ddiddorol dros ben ac yn portreadu sawl agwedd ar fywyd yng ngorllewin Cymru 200 mlynedd yn ôl, mewn cyfnod o dlodi mawr a chynnwrf cymdeithasol, yr awydd am arweiniad ysbrydol, a newyn am addysg. Wedi ei ordeinio, priododd â Mary Jones, etifeddes i ffermwyr cefnog a ddaeth dan ddylanwad ei bregethau. Roeddynt yn byw yn gyfforddus, ond fe rannwyd llawer o'r cyfoeth rhwng adeiladu capeli a chynorthwyo disgyblion yn yr Academi a sefydlwyd yn 1810.

Yn ystod ei fywyd cymharol fyr ysgrifennodd Dr Phillips ddeg o lyfrau a llawer o emynau. Sefydlodd saith capel, yn Llanbadarn Fawr, Talybont, Nebo, Peniel, Aberaeron, Mydroilyn a Llanarth. Cafodd ef a'i briod naw o blant. Cofir amdano yn bennaf oherwydd ei Academi a'r cenhadon a fagwyd yno. Ond roedd ei ddylanwad lleol yn aruthrol hefyd. Roedd yn syndod sylweddoli fod deg y cant o ddisgyblion yr Academi yn ferched. Diau fod y merched yno hefyd yn ddarpar wragedd i bregethwyr.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Chwefror 21ain, yn Hen Neuadd y Coleg am 7.30, yng nghwmni'r Athro David Austin, y siaradwr gwadd. Fe gawn hanes y gwaith archeolegol gwefreiddiol a ddarganfuwyd wrth gloddio yng Ngerddi Botaneg Cymru y llynedd..



**Cylch Trafod Amaethyddol Llanbed**

Daeth dros 70 o aelodau a ffrindiau i'r Cinio Blynyddol yng Ngholeg Dewi Sant ar Ionawr 6ed. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd John Bolwell gan gyflwyno y wraig wadd sef Aelod Ceredigion yn y Cynulliad, Elin Jones. Soniodd am ei gwaith yn y Senedd yng Nghaerdydd ac am ei chyfnod fel Gweinidog Amaeth a Materion Gwledig. Diddorol oedd clywed am ei hymgyrch i gyflwyno'r cynllun i ddifa moch daear a'r gwrthwynebiad a gododd o blith pobl fel Brian May, un o gyn-aelodau y grŵp pop Queen. O gefndir amaethyddol ei hun, tanlinellodd bwysigrwydd amaeth i economi a threftadaeth Ceredigion a'r angen i gynnal amaeth lewyrchus. Wrth ddiolch i Elin Jones, cyfeiriodd y Llywydd, Mr. Eifion Jones Talar Wen, at ei hymroddiad a'i gwaith caled gan gyflwyno a anrheg iddi ar ran yr aelodau yn werthfawrogiad. Datgelwyd enwau y buddugol yn y gystadleuaeth a'r canlyniadau fel a ganlyn: Clamp Silwair – 1. Daniel Evans, Tandderi, Llanybydder, 2. Gareth Jones, Cilerwisg, Felinfach, 3. Dafydd Lloyd Jones, Ystrad Dewi, Llanio. Byrnau Mawr – 1. Carwyn Davies, Penlan, Talsarn, 2. Brinley Davies, Penlan, Talsarn, 3. Alan Bellamy, Hendy, Llanybydder. Gwair – 1. Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge, 2. Glyn Davies, Lloyd Jack, Felinfach, 3. Euros Davies, Ffosygaseg, Cribyn. Enillydd Cwpan Coffa Albert Evans am y cyflwyniad gorau oedd Daniel Evans, Tandderi. Enillwyd y gystadleuaeth ffotograffiaeth gan Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge. Diolchodd yr Is Gadeirydd, Mr. Teifi Jenkins i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac am baratoadau'r ginio. Ar Chwefror 17eg bydd Meinir Jones, un o gyflwynwyr Ffermio yn sôn am ei gwaith. Cynhelir y cyfarfod yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 7.30 gyda chroeso cynnes i bawb.

**Babi Newydd**

Ar ddiwrnod Santes Dwynwen fe anwyd mab i Lowri ac Edward Davies, 42 BrynSteffan, - Ifan Teifi ac ŵyr bach newydd sbon i Berian a Beverley Wilkins, Heol Maestir a'r Fishers, Cellan.

**Efeilliaid Newydd**

Ymhyfrydwn yng ngenedigaeth efeilliaid bach newydd, mab a merch i Lilian a Gareth, Hen Dy'r Banc Llambed sef Daniel Siôn a Delun Aur a brawd a chwaer i Beca.



Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

# Cadwyn Cyfrinachau

**Enw: Elin Medi Lloyd**
**Oed:** 24
**Pentref:** Pumsaint
**Gwaith:** Cynorthwy-ydd dosbarth yn Ysgol Gynradd Aberaeron
**Partner:** Rhodri Williams

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**
Ffurfio band yn yr ysgol gynradd gyda Gwennan fy ffrind, a'i alw yn Mwswm!

**Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.**
Art Attack

**Yr eiliad â'r embaras mwyaf.**
Cwmpo yn fflat ar y llawr off y pafin ar y ffordd i'r bws o fla'n y bois mwya' golygus yn yr ysgol!

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn?**
I weud plîs a thenciw.

**Y CD cyntaf a brynest di erioed?**
The Smurfs

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**
Dylunydd ffasiwn.

**Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?**
Hymio fel pryfyn yn nosbarth Mrs Puw! Sori Mrs Puw!

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**
Gatre gyda fy nheulu dwl.

**I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?**
Peppermint Patty o'r cartŵn Snoopy!

**Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?**
Garibaldi achos bo fi'n hoffi'r gair!



**Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?**
Cymraeg

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**
Prynu Mini Cooper

**Beth sy'n codi ofn arnat?**
Dad yn grac

**Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?**
Bo fi wedi rhoi yr £20 nes i fenthyg wrtho dad nol iddo fe (ond sai wedi). Bydd e'n gwbod nawr ta beth!

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?**
Zumba a mynd am ambell i jog.

**Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?**
Odd dad (a mae e dal yn) gweud y speech hyn cyn i fi fynd mas ar nos Sadwrn "Bihafia, cofia pwy yw dy dad a dy fam, a paid a rhoi lle i neb i siarad amdano ni!"

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Real sili bili.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**
Ford Fiesta

**Beth yw dy hoff air?**
Sbeng!

**Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?**
Bwyd Tsieineaidd.

**Beth yw dy ddiod arferol?**
Gwin rose.

**Beth wyt ti'n ei ddarllen?**
Fi'n bach o Harry Potter 'nerd'!

**Beth yw dy hoff arogl?**
Arogl welsh cakes mam!

**Sut wyt ti'n ymlacio?**
Gwisgo slacs, iste o flan y tân a yfed glased fach o win.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?**
Facebook!

**Sawl ffrind sydd gennyt ti ar Facebook?**
518

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?**
Gwennan Evans, darllenydd tywydd gorau radio Cymru!

**Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?**
Rio, yn y Commodore gyda phlant ysgol Aberaeron.

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**
Y Kenwood mixer newydd ges i amser Nadolig!

**Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?**
Whare electric gitâr.

**Beth sy'n rhoi egni i ti?**
Red bull!

**Y gwyliau gorau?**
Trip hoci a rygbi'r ysgol i Ganada yn 2003, tynnu coes Mr Eb non stop! Na beth oedd sbort.

**Ble fyddi di mewn deng mlynedd?**
Ddim rhy bell o fan hyn gobitho.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
**Gareth Thomas,**
Ffarmers

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 3 | | | | 4 | 1 |
| | 7 | 3 | | 1 | | | 5 | |
| | | | 6 | 7 | | 3 | | |
| 5 | 6 | | | 3 | | | | 8 |
| | | | | | | | | |
| 4 | | | | 8 | | | 9 | 5 |
| | | 5 | | 2 | 6 | | | |
| | 4 | | | 9 | | 1 | 6 | |
| 2 | 9 | | | | 7 | | | |

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

**Atebion Swdocw mis Rhagfyr:**
Llongyfarchiadau i: **Bryn Hughes, Cwmere, Felinfach**, ac i bawb arall am gystadlu: Enid Diplock, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin; Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Ellie Davies, Golygfa'r Llyn, Abergwili; Betty Morris, Bro Mihangel, Felinfach; Catrin James, Castelldu, Llanwnnen, Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder ac Avril Williams, Y Fedw, Cwmann.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 8 | 7 | 9 | 6 | 2 | 4 | 1 | 3 |
| 3 | 6 | 1 | 7 | 4 | 8 | 2 | 5 | 9 |
| 9 | 4 | 2 | 5 | 1 | 3 | 6 | 8 | 7 |
| 1 | 9 | 5 | 8 | 7 | 6 | 3 | 4 | 2 |
| 4 | 3 | 8 | 1 | 2 | 9 | 7 | 6 | 5 |
| 2 | 7 | 6 | 3 | 5 | 4 | 1 | 9 | 8 |
| 8 | 1 | 4 | 2 | 3 | 5 | 9 | 7 | 6 |
| 6 | 5 | 3 | 4 | 9 | 7 | 8 | 2 | 1 |
| 7 | 2 | 9 | 6 | 8 | 1 | 5 | 3 | 4 |

# Llangybi

**Ysgol y Dderi**

Cawsom fis Rhagfyr prysur iawn yn yr ysgol gyda'r gweithgareddau Nadoligaidd arferol – paratoi ar gyfer ein cyngerdd – "Y Dyn Blin", mwynhau cinio blasus dros ben a chael ymweliad gan yr hen Siôn Corn wrth gwrs! Yn ogystal â hyn, cafodd plant a staff Blwyddyn 1 a 2 ddiwrnod o hwyl yng Nghoedwig Longwood a bu Blwyddyn 5 yn rhostio cnau a pharatoi sudd ffrwythau cynnes allan yng nghoedlan yr ysgol.

Daeth dwy fyfyrwraig o Goleg y Drindod atom ar gyfnod ymarfer dysgu yn nosbarthiadau Blwyddyn 1 a 2 yn ystod tymor y Nadolig, ac fe gafodd y plant lawer o brofiadau hyfryd gyda Miss Siwan a Miss Elin. Diolch i'r ddwy, a phob lwc iddynt. Yn ystod y tymor hwn hefyd, fe ymunodd Mr Anthony â staff yr ysgol, ac mae e wedi ymgartrefu yn ei swydd yn cynorthwyo ym Mlwyddyn 4. Croeso cynnes iddo.

Ddechrau'r tymor presennol fe ymunodd pedwar plentyn newydd â'r dosbarth Meithrin. Gobeithio y bydd Rhydian, Benjamin, Bo a Kenton yn hapus iawn gyda ni. Mae Miss Lilian eisoes wedi dechrau ar ei chyfnod mamolaeth erbyn hyn, ac rydym i gyd yn dymuno'n dda iddi...tra'n aros yn eiddgar am unrhyw newyddion! Yn edrych ar ôl ei dosbarth mae Miss Leonie; croeso cynnes iddi hithau hefyd – mae hi'n siŵr o fwynhau ei hamser gyda phlant y Meithrin a'r Derbyn. Braf oedd clywed newyddion pwysig Miss Gwen, un o'r gweinyddesau Meithrin, ar ôl y Nadolig hefyd – llongyfarchiadau mawr iddi hi a Marc ar eu dyweddïad.

Aeth tîm pêl-rwyd Blwyddyn 6 i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnament yr Urdd yn Llambed yn ddiweddar, a'r plant wedi mwynhau ymarfer eu sgiliau a chystadlu yn erbyn y timau eraill.

Cawsom "Ddiwrnod Gwylio Adar" ar yr 20fed o Ionawr, a phawb wrth eu bodd yn edrych allan am yr adar niferus sy'n ymweld â thir yr ysgol, yn dysgu ffeithiau ac yn casglu gwybodaeth. Diwrnod addysgiadol iawn!

**C.Ff.I. Bro'r Dderi**

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur iawn yng nghalendr C.Ff.I Bro'r Dderi. Hoffwn ddechrau wrth ddiolch i bawb am eu cydweithrediad drwy gydol 2011 ac am wneud ein bywyd ni fel aelodau llawer yn fwy hwylus.

Dros y Nadolig, buom yn canu carolau a fuodd yn llwyddiant ysgubol. Bydd yr arian eleni yn mynd at Ambiwlans Awyr Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i Delyth Evans, Carys Jones a Kelly Jones am gael y tîm gorau, ac hefyd i Delyth Evans am gael y cadeirydd gorau yng nghystadleuaeth y Siarad Cyhoeddus Cymraeg.

Fel clwb, rydyn ni wedi bod yn gwneud llawer o weithgareddau gwahanol ambell i nos Iau. Diolch yn fawr i Dafydd Williams am ei nosweth Cymorth Cyntaf a fuodd yn noson o addysg a sbort ac hefyd i Gwen Davies am ei nosweth addurno cacennau.

Mae 2012 yn mynd i fod yn flwyddyn brysur arall a chroeso i unrhyw aelodau newydd.

**Hamdden**

Croesawodd y llywydd, Janet Farrow yr aelodau i'r Castle Green ar Ionawr 6ed i ddathlu'r flwyddyn newydd. Yno, yr oedd gwledd fendigedig wedi ei pharatoi ar ein cyfer mewn awyrgylch cartrefol ac mewn ystafell a oedd wedi ei haddurno yn gelfydd iawn. Fe gyfnewidiwyd anrhegion ac fe ddymunwyd iechyd ac adferiad llwyr i'r rhai oedd yn sâl. Fe fydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi ar brynhawn Gwener 3ydd Chwefror am 2.00y.p. pryd y disgwylir Jennifer Mathias i danio diddordeb pobl trwy sôn am gerrig hanesyddol. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno.

**Merched y Wawr Y Dderi**

Cawsom noson addysgiadol a diddorol iawn yng nghwmni dwy o weithwyr Ffagl Gobaith, sef Liz Pugh ac Ingrid. Mae'r elusen yma yn darparu gwasanaeth Hosbis yn y cartref a chefnogaeth emosiynol ac ymarferol i bobl yn eu cymuned eu hunain sydd yn dioddef salwch terfynol neu dostrwydd difrifol. Dim ond ers 2000 mae'r elusen wedi ei sefydlu ond mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i bobl sydd mewn angen yn eu cymunedau, a da yw gwybod fod yna gymorth i'w gael mewn cyfyngder. Os am ragor o wybodaeth am waith yr elusen, ffoniwch 01970 615593 neu galwch yn 10 Stryd y Popty, Aberystwyth neu yng Nghapel y Methodistiaid, Y Comin, Llambed. Rhoddwyd y raffl gan Lettie Vaughan a Mary Jones ac fe'i henillwyd gan Ingrid a Deborah Jones.

I ddiweddu'r cyfarfod, cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Jennifer Mathias a Mair Spate. Jennifer hefyd a roddodd bleidlais o ddiolch gwresog i'r gwesteion am noson gofiadwy.

I'r cyfarfod nesaf ar Chwefror 8fed rydym yn disgwyl y Bon. Gerald Morgan i'n hannerch.

**Croeso**

Croeso adref a dymuniadau gorau am adferiad buan a llwyr i Mrs Alwen Morgans ar ôl iddi gael llawdriniaeth ac ysbaid i gryfhau ym Min-y-Môr, Aberaeron. Brysiwch wella.


Duet a lan llofft
**Sioe Ffasiwn**
Dydd Sadwrn, Mawrth 10fed am 2.00y.p.
Yng Ngholeg Prifysgol Llambed.
Pris tocyn - £15 yn cynnwys Te Prynhawn.
Elw at Elusen Motor Neurone
Llywydd: Cyng. Hag Harris
Ffôn: 01570 422508.



Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal, yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gwersi Piano
gan athrawes brofiadol

Cysyllter ag
Ann Bowen Morgan
01570 422413



Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045




## Clwb Clonc

**Chwefror 2012**

**£25 rhif 308:**
Elinor Jones,
Gwrdy, Stag's Head, Tregaron.
**£20 rhif 369:**
Mrs Gwyneth Morgan,
Llety'r Dderwen, Cwmann.
**£15 rhif 265:**
Mrs Mary Jones,
Fflat 17, Maesgogerddan, Penglais, Aberystwyth.
**£10 rhif 411:**
Ieuan Roberts,
Madryn, Rhodfa Glynhebog, Llambed.
**£10 rhif 465 :**
Mrs Joyce Williams,
Pleasant Hill, Llanwnnen.
**£10 rhif 194:**
Mrs Aerwen Griffiths,
Pengarn, Heol Llanfair, Llambed.


REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561



Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644


Rhifyn mis Mawrth
Yn y Siopau
**1af Mawrth**
Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
**20fed Chwefror**


Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

**Ffynnonbedr**

Roedd ein sioe Oliver yn llwyddiant ysgubol a hyfryd oedd gweld disgyblion y campws yn mwynhau perfformio ar lafar ac ar gan. Diolch i bawb a gefnogodd y perfformiadau a chofiwch mae DVD o'r sioe ar werth am £8.00.

Derbyniodd Owen Rowcliffe a Storm de Moigan dystysgrifau am ddarllen nifer o lyfrau dan y cynllun Sêr y Syrcas – da iawn chi. Gwnaeth Charlotte Saunders ac Elan Jones ganu unawdau yng ngwasanaeth y sector Uwchradd yn ddiweddar.

Bu Meilyr, Cian, Oscar, Sebastian yn llwyddiannus wrth gwblhau cwrs "Rebound Therapy" dan arweiniad Marlene Davies. Diolch i Carys Lewis a Sandra Davies a'r disgyblion a fu'n diddanu'r henoed yn Neuadd Fictoria ac a fu'n canu yn y dref.



Cynhaliwyd y rownd gyntaf o gystadleuaeth Cogurdd yn yr ysgol a gwnaeth un deg tri o ddisgyblion gymryd rhan gyda Osian Jones yn fuddugol, Aled John a Lois Price yn gydradd ail a Rhys Bishop yn drydydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Hughbert, Adrian, Aisvariah, Jennifer, Venus, Wardah, Bryn, Morgan a Ryan a diolch i Mary Jones a Helen Jones am roi o'i hamser prin i feirniadu'r gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i dim pêl-droed cymysg yr adran o dan hyfforddiant Mr John ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth y Sir a gynhaliwyd yn ddiweddar – da iawn Grace, Mari, Iestyn, Aled, Tomos, Leon ac Osian.

Llwyddodd dau ddisgybl o'r ysgol i serennu yng nghystadleuaeth a drefnwyd ar lefel Sirol gan yr Adran Arlwyo sef Cynllunio hoff fwyd – llongyfarchiadau i Rhys Tom Williams ar ddod yn fuddugol ac i Austin Thomas am ddod yn ail. Bydd y ddau yn derbyn gwobrau yn y dyfodol agos.

Bu tîm o ferched yn cystadlu yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd a diolch i Miss Pugh a Mrs A Jones am drefnu – da iawn chi ferched sef Grace, Mari, Charlotte, Lois, Georgie, Alecia, Bethan, Poppy, Wardah a Menna.

**Ysgol Campws Llambed**

Ar Hydref 19-21, bu 34 o ddisgyblion blwyddyn 8 yn ogystal â Jack Lloyd a Szabolcs Nagy o flwyddyn 9 a 10 'Swog' o flwyddyn 12 ar daith i Wersyll yr Urdd, Glan-llyn, yng nghwmni Delor James, Hedydd Thomas a Luned a Rhydian o'r Urdd. Cafwyd amser bendigedig lle manteisiwyd ar bob cyfle i ymwneud â phob gweithgaredd gydag egni, brwdfrydedd, hwyl a pharch at eraill.




Yn ystod y tymor, cynhaliwyd Clwb Cymraeg yng ngofal aelodau blwyddyn 12 ar gyfer blwyddyn 7. Rydym yn cwrdd amser cinio bob pythefnos ar ddydd Iau. Ar ddechrau'r tymor chwaraewyd gêmau er mwyn i'r aelodau ddod i adnabod ei gilydd yn well drwy gymdeithasu yn Gymraeg. Daeth nifer fawr o aelodau i'r clwb (mae'r niferoedd yn cyrraedd dros 40 ym mhob cyfarfod yn aml). Cynhaliwyd cystadleuaeth i'r aelodau greu logo i'r clwb. Llongyfarchiadau i Twm Ebbsworth a Tomos Jones am greu logo effeithiol a phwrpasol i'r clwb. Hefyd, enillwyr y cystadlaethau hyd yn hyn yw: Twm Ebbsworth, Ryan Holmes, George Greenfield, Ffion Green a Helen Casiday. Y gweithgareddau yr ydym wedi bod ynghlwm â nhw hyd yn hyn yw bingo, cwis, gêmau hwyl a sbri a llawer mwy. Cyn y Nadolig fe drefnon ni Eisteddfod Ddwl gydag ysgolion Tregaron a Dyffryn Teifi, gyda'r beirniad enwog Dewi Pws. Ein bwriad yw annog disgyblion blwyddyn 7 i gymdeithasu yn Gymraeg gyda'i ffrindiau, ac mae'r chweched yno i helpu disgyblion mewn unrhyw ffordd bosib.

Llongyfarchiadau i Joe McCambridge a John James am ennill gwobrau efydd yn yr UK Senior Maths Challenge. Pob lwc i Joe hefyd wrth iddo ddilyn cwrs 'Rhaglen Mathemateg Bellach Cymru 2012' mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe.

Cafodd myfyrwyr y chweched dosbarth, sy'n astudio Saesneg Iaith fel pwnc UG, y cyfle i fynychu darlithoedd gan arbenigwyr byd-eang yn Amgueddfa Caerdydd ar yr 28ain o Dachwedd. Bu'r disgyblion yn dysgu am y ffordd y mae iaith yn cael ei defnyddio mewn rhaglenni teledu ac yn ystyried hanes, datblygiad ac esblygiad yr iaith Saesneg.

Cynhaliwyd dadl fywiog ar y testun 'Dylid ail enwi Siôn Corn yn Sian Corn' (dadl ar destun cywirdeb gwleidyddol) ar ddydd Gwener, Rhagfyr 16. Diolch i bawb wnaeth ddod i'r cyfarfod yma o'r gymdeithas Ddadlau. Bydd yna gyfle i ddadlau eto yn 2012!

Yn ddiweddar, bu 30 o ddisgyblion yn ymweld â Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd, ar gyfer gweithdy arbenigol ar waith Charles Dickens. Yn ystod y gweithdy bu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama ac adrodd straeon, ac i orffen, cafwyd cyfle bythgofiadwy i weld y ganolfan a'r paratoadau ar gyfer y perfformiad o Oliver!

Yn ddiweddar, derbyniodd 15 o ddisgyblion Blwyddyn 13 dystysgrif mewn seremoni wobrwyo yng Nghaerfyrddin am gwblhau'r Cynllun Aur yn llwyddiannus. Bu'r disgyblion yma'n dilyn cwrs tri diwrnod ar gampws Caerfyrddin, Coleg Y Drindod Dewi Sant yn ystod yr Haf ac mae'r modiwl yma yn werth deg credyd UCAS. Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu llwyddiant.

Ym mis Hydref bu 50 o ddisgyblion blwyddyn 11, 12 a 13 ar daith i Lundain. Pwrpas y daith oedd astudio newidiadau yn ardal Stratford yn y ddinas fewnol. Roedd yn agoriad llygad gweld yr holl ddatblygiadau o gwmpas Parc y Gêmau Olympaidd. Cawsom gyfle i ymweld â chanolfan siopa newydd Westfield (y ganolfan siopa ddinesig fwyaf yn Ewrop) sydd yn rhan o'r datblygiadau newydd yn ardal y Parc Olympaidd. Gwnaethon ni fwynhau perfformiad gwefreiddiol o The Lion King yn y West End ac yna aros mewn gwesty ar bwys Tower Bridge. Yn ystod ein hymweliad â'r Natural History Museum dysgon ni lawer am themâu pwysig megis Tectonig a Datblygiad Cynaliadwy.

Yn rhan o'u hymchwil, bu myfyrwyr Blwyddyn 13 yn gwneud gwaith maes yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar, gan nodi'r bensaernïaeth a'r math o siopau mewn gwahanol rannau o'r dref a chynnal arolwg trwy holiadur ymhlith siopwyr.

Mae'r Clwb Ieithoedd wedi cynnal sesiynau difyr a diddorol yn ystod y tymor gyda nifer fawr o ddisgyblion yn elwa o'r cyfleoedd i ddysgu mwy o ieithoedd amrywiol. Ar yr 11eg o Hydref, cafwyd dosbarth llawn disgyblion yn dysgu geirfa caffi mewn Eidaleg dan ofal Sofia Morris, 11 Non. Ar y cyntaf o Dachwedd, fe fu Cari, Meg a Beca yng ngofal sesiwn yn dysgu idiomau Ffrangeg i'r disgyblion. Diddorol gweld gymaint o briod-ddulliau Ffrangeg a oedd yn cynnwys bwyd! Roedd yn amlwg bod y disgyblion wedi dysgu llawer gan fod saith ohonynt wedi cael pob un o'r idiomau yn y gystadleuaeth yn gywir ac fe fu'n rhaid dewis tri enw o'r het. Ar y 15fed o Dachwedd, bu Anaite Faulker 7S a Cari Lake Bl. 12 yn dysgu'r lliwiau yn Sbaeneg i'r disgyblion. Ar y 29ain o Dachwedd, cynhaliodd Athrawes Sbaeneg yr ysgol, Mrs. Rhian James, sesiwn sgwrsio mewn Sbaeneg. Eto, bu'n brofiad buddiol iawn i'r disgyblion.

Roedd yr Adran Ieithoedd Modern yn falch iawn i groesawu 29 o ddisgyblion o St. Germain, gefeilldref Llambed, i'r ysgol cyn hanner tymor mis Hydref. Fe fuon nhw'n ymweld â gwersi Saesneg, Ymarfer Corff a Ffrangeg. Hoffai'r Adran ddiolch yn fawr i'r rhieni a fu mor barod i groesawu'r disgyblion o Ffrainc i'w cartrefi ac i'r Pwyllgor Gefeillio am hwyluso'r trefniadau. Yn sicr, roedd yn brofiad amhrisiadwy i'n disgyblion gael y cyfle i ymarfer eu Ffrangeg ac i greu cyfeillion.

Mae ein Prif Ferch, Carwen Richards yn eistedd ar y Cyngor Ysgol ac mae hi'n llysgennad ifanc dros chwaraeon, ynghyd â Chris Fox (Bl.13) a Mererid Rees (Bl.12). Maent eisoes yn cefnogi'r prosiect 5x60 ac fe drefnon nhw wasanaeth i hybu Gêmau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 yn ddiweddar. Fe wnaeth Carwen gyflwyniad clou i'r Cyngor Ysgol yn ein cyfarfod ar 25.11.12 am eu rôl nhw fel llysgenhadon ifanc, gan gynnig syniadau am yr hyn medr y ddau safle wneud fel un ysgol o dan ambarel y Gêmau Olympaidd a'r prosiect 5x60.

Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Nicola Miles (Bl.13), sy'n aelod brwd o'r Cyngor Eco. Pwrpas y Cyngor Eco yw datrys problemau, er enghraifft problemau gwastraff egni, er mwyn lleihau'r effaith y mae'r ysgol hon yn


# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan



I gyd-fynd â'r cynllun 3-19, mae gyda ni Gyngor yr Ysgol Gynradd / Uwchradd ers dechrau mis Medi. Rydym yn cwrdd ddwywaith y tymor yn un o'r ddau safle i drafod materion pwysig sy'n effeithio'r campws cyfan. Trefnwyd gêm hoci (merched yn erbyn bechgyn) i godi arian at elusen gan y Prif Swyddogion yn ddiweddar. Codwyd arian ar gyfer y Kariandusi School Trust ac Ambiwlans Awyr Cymru. Daeth sawl aelod o'r Ysgol Gyfun i gefnogi'r achos, yn ogystal â chriw o blant yr Ysgol Gynradd.

ei chael ar Gynhesu Byd Eang. Er mwyn llwyddiant y prosiect, mae'n rhaid i'r Cyngor Eco gael cefnogaeth yr Ysgol gyfan i gynnal arolygon ag ati. Penderfynwyd y byddai llond llaw o aelodau'r Cyngor Ysgol yn eistedd ar y Cyngor Eco yn rheolaidd, ac felly byddai gan y Cyngor Eco fewnbwn i'n Cyngor Ysgol. Cofiwch, am ragor o wybodaeth neu am gopi o gofnodion y cyfarfodydd, ewch i wefan yr ysgol, sef www.ysgol-llambed.org.uk.

Mae'r tymor wedi bod yn un prysur i'r disgyblion galwedigaethol unwaith eto. Tra bod disgyblion bl. 13 yn paratoi ar gyfer eu harholiadau ym mis Ionawr, mae bl. 12 wedi bod yn ymwneud ag amryw o weithgareddau. Mae disgyblion bl. 12 Iechyd a Gofal wrthi yn paratoi gwahanol Ymgyrchoedd Iechyd yn ogystal â helpu yn Ysgol Ffynnonbedr a Chanolfan y Bont. Yn olaf, mae disgyblion bl. 12 Busnes wedi bod yn datblygu eu sgiliau busnes ymarferol drwy sefydlu busnes eu hunain, 'Lleche N Bren'. Maent wedi bod wrthi yn dylunio a chreu amryw o nwyddau o lechen a phren.



Cafodd Bl. 11 y cyfle fis diwethaf i fynychu cynhadledd dau ddiwrnod yn trafod ffyrdd gwahanol i wneud cais am swydd a thechnegau cyfweliad. Fe welsant sut i osod CV a chwblhau ffurflen gais ac ysgrifennu llythyr cais. Yna, cawsant y cyfle i gymryd rhan mewn ffug gyfweliadau. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Gyrfa Cymru am helpu trefnu'r diwrnod.

Cafodd Bl. 10 ymweliad buddiol iawn â'r Ffatri Siocled yn Abertawe. Cawsant gyflwyniad ar hanes sefydlu'r busnes, sut mae'n cael ei drefnu a sut maent yn gwneud y siocled. Yr uchafbwynt serch hynny oedd blasu'r amrywiaeth o siocled maent yn ei wneud!

Bu criw Busnes Bl. 10 wrthi'n brysur yn sefydlu cwmnïau bach eu hunain ar gyfer y Ffair Nadolig eleni. Cafwyd dewis o nwyddau - gemwaith, cacennau mefus a siocled, a phecynnau losin, er enghraifft. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Ddydd Mawrth, Tachwedd y 15fed, bu disgyblion yr uned sgiliau bywyd yn cymryd rhan mewn twrnamaint pêl-droed a drefnwyd gan Chwaraeon Anabledd Cymru. Bu'r disgyblion yn cystadlu yn erbyn timau o ysgolion eraill yng Ngheredigion yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau mawr i Megan Grooby hefyd am ennill gwobr "Chwaraewraig orau'r gêm".

Dydd Sul yr 11eg o Ragfyr bu'r canlynol yn Neuadd Ysgol Uwchradd Aberaeron yn ymarfer fel aelodau o gôr hŷn Ceredigion - S.A.T.B o 10 y bore tan 8 yr hwyr. Bl. 13, Bethan Hardy; Bl. 12, Amelia Davies; Bl. 11, Gwawr Hatcher, Dewi Uridge, Meleri Davies; Bl. 10, Klean Dalton

Dros penwythnos yr 16eg - 19eg bu yna gwrs hyfforddi i aelodau'r gerddorfa yng Nghanolfan yr Urdd yn Llangrannog. Cwrs preswyl oedd hwn gydag ymarferion dwys am oriau bob dydd, ond gydag ambell awr i fwynhau yn y canol. Bu Max Zinn o ddosbarth 9S ar y cwrs yn chwarae'r Trombôn. Da iawn fe am ei ymroddiad.

Ddydd Iau Rhagfyr y 15fed, bu'r canlynol yn ymarfer yn Neuadd Llwyncelyn o 10 y bore tan ddiwedd y prynhawn: Bl 11, Dewi Uridge, Daniel Garside, Craig Randell; Bl 10. Klean Dalton, Cory Lloyd, Aaron Green, Peter Hurton.

Ffrwyth yr holl ymarferion yma oedd cyngerdd mawr yn Neuadd Fawr Aberystwyth ar y 19eg o Ragfyr. Bu offerynwyr o Fl. 7-9 yn y Neuadd Fawr yn ystod y sioe brynhawn yn gwrando ar y perfformiad hefyd. Pleser oedd gweld pobl ifanc Ysgol Llanbed yn perfformio ar eu gorau. Da iawn chi i gyd. Rydym yn falch iawn ohonoch.

Bu rhai o ddisgyblion Bl. 7 a 8 yn Aberystwyth dros yr hanner tymor yn cael clyweliad gan Tim Rhys Evans, arweinydd Only Men Aloud. Roedd yn brofiad da iddynt ac roedd y gystadleuaeth yn galed gan mai dim ond 60 o aelodau oedd yn cael eu dewis drwy Gymru gyfan. Pleser oedd clywed bod Charlotte Saunders o Fl. 6 Ysgol Ffynnonbedr wedi cael ei dewis. Llongyfarchiadau iddi a phob dymuniad da iddi yn y côr newydd yma. Mae Charlotte yn ferch i Sally Saunders sydd yn rhoi gwersi canu i ddisgyblion Bl. 7-9 yn yr ysgol.

Mae Amelia Davies o Fl. 12 a Bethan Hardy o Fl. 13 wedi cynnig am le yn y côr mawr o ddisgyblion Cymru fydd yn perfformio darn newydd gan y cyfansoddwr enwog Karl Jenkins ym mis Mawrth 2012. Bydd e hefyd yn arwain y côr. Edrychwn ymlaen at glywed a ydynt wedi bod yn llwyddiannus. Bu 40 o ddisgyblion Bl. 8 a 9 yn perfformio yn Neuadd Ffynnonbedr ar y 14eg a'r 15fed o Ragfyr. Roedd yn bleser gweld yr holl egni a brwdfrydedd gan yr holl ddisgyblion, o'r babanod hyd at ddisgyblion Bl. 9.

Aeth dros 100 o ddisgyblion Bl. 7 i Gaerdydd ar y 15fed o Ragfyr i weld y pantomeim Robinson Crusoe and the Caribbean Pirates yn y New Theatre gyda Christopher Biggins yn seren. Cafwyd diwrnod bendigedig a thipyn o hwyl, "Oh yes we did, oh no we didn't!"

# Gwefannau Cymunedol:

Capel Bethel Parcyrhos: www.bethel.btck.co.uk
Cerddorfa Siambr Llambed: www.lampeter-orchestra.co.uk
Clwb Cledlyn: www.clwb-cledlyn.org.uk
Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog: www.cffillanwenog.org.uk
Clwb Moduro Llambed a'r ardal: www.ldmc.org.uk
Clwb Rygbi Llambed: www.clwbrygbillambed.org
Coleg Llanbed: www.ydrindoddewisant.ac.uk
Côr Cardi-Gân: www.corcardi-gan.com
Côr Meibion Cwmann: www.corcwmann.btck.co.uk
Côr Merched Côrisma: www.corisma.btck.co.uk
Cwmann: www.cwmann.btck.co.uk
Cyngor Tref Llambed: www.lampeter-tc.gov.uk
Cymdeithas Cerdd Llambed: www.lampetermusic.co.uk
Ffair Fwyd Llambed: www.lampeterfoodfestival.org.uk
Ffair Ram: www.ffairram.btck.co.uk
Ffarmers: www.ffarmers.org
Gwenynwyr Llambed: www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk
Llanfair Clydogau: www.llanfairclydogau.co.uk
Llanllwni: www.llanllwni.co.uk
Llanybydder: www.llanybydder.org.uk
Menter Llambed: www.lampeter.org
Neuadd Mileniwm Cellan: www.cellanmillenniumhall.co.uk
Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk
Plwyf Llanwenog: www.plwyfllanwenog.com
Pwll Nofio Llambed: www.lampeterpool.com
Sgowtiaid Llambed: www.1stlampeter.co.uk
Transition Llambed: www.transition-llambed.org.uk
Y Ford Gron Llambed: www.lampeterroundtable.org.uk
Ysgol Carreg Hirfaen: www.carreghirfaen.amdro.org.uk
Ysgol Cwrtnewydd: www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk.
Ysgol Ffynnonbedr: www.ffynnonbedr.ceredigion.sch.uk
Ysgol Gyfun: www.ysgol-llambed.org.uk
Ysgol Llanwenog: www.ysgolllanwenog.co.uk
Ysgol Llanwnnen: www.ysgolllanwnnen.co.uk
Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

**Alec Page Gof**



Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.

*Dewch i drafod eich syniadau.*

Yr Efail, Barley Mow, Llambed.

**01570 423955**



**COMPASS OFFICE SUPPLIES**

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232



**T. Emyr Jones Adeiladwr**



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174



**CANOLFAN ADDURNO AA A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

*Arbenigedd ar garreg eich drws.*

**3 Stryd y Bont**
**Llanbedr Pont Steffan**
**01570 423156**



**Cludfwyd Indiaidd NEHAR**



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

**10 Stryd y Bont, Llambed**
**☎ 01570 422893 / 422175**


# Llanybydder

**Cydymdeimlo**

Bu farw Mrs Ray Davies, Crug yng nghartref Allt-y-mynydd cyn y Nadolig. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu.

**Merched y Wawr**

Treuliasom noswaith wrth ein boddau yn ein cyfarfod diwethaf pan ddaeth Catrin, Castell Du, Llanwnnen yn ei ffedog Nadoligaidd i roi syniadau i ni ar sut i baratoi nifer o gyrsiau yn defnyddio bwydydd ffres a sbarion cinio Nadolig.

Roedd wedi gwisgo'r ford yn ddeniadol a lliwgar yn llawn addurniadau'r Nadolig i'n gosod mewn hwyl dda o'r cychwyn.

Daeth ati wedyn yn ei ffordd hwylus yn llawn hiwmor i baratoi pedwar cwrs yn cynnwys Pastai Ham a Thwrci blasus dros ben. 'Sdim rhaid dweud ein bod i gyd wedi mwynhau profi'r bwydydd yn fawr iawn!! Cawsom wydriad o bwnsh i helpu'r treiffl fynd lawr! Hyfryd iawn wir. Diolchodd Caroline Davies i Catrin am baratoi'r fath wledd ac am yr holl waith ynghlwm â'r noswaith. Enillydd y raffl oedd Caroline a diolch i Beti Jacob am ei rhoi.

**Llwyddiant Cerddorol**

Llongyfarchiadau i Sioned Fflur Davies, Trem-yr-afon, Rhydybont ar lwyddo mewn arholiad piano gradd 1 y Coleg Cerdd Brenhinol.

**Diolch**

Dymuna Eurwyn ac Irene, 47 Heol-y-Gaer ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y caredigrwydd iddynt ar golli chwaer a chwaer yng nghyfraith, sef Lena Williams, 31 Heol-y-Gaer gynt. Fe'i gwerthfawrogir yn fawr.

Dymuna Arwyn a Carol, Awel-y-grug ddiolch o galon i bawb am y cardiau, blodau ac anrhegion ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Hoffai Mair a Alun, Emyr a Rhian a'u teulu ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ar golli mam a mam-gu, sef Lena Williams gynt o 31 Heol-y-Gaer. Hoffai'r teulu ddiolch yn arbennig i Eirwyn ac Irene am y gefnogaeth anferthol a dderbyniodd wrthynt.

Dymuna Jordan James, 9 Bro Rhydybont, ddiolch am yr holl gyfarchion, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Dymuna Fiona Davies, Gwastod Iago ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a gafodd ar ôl bod am lawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch o galon.

**Arholiadau Cerdd**

O dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol llwyddodd y canlynol yn eu arholiadau piano. Gradd 2 – Jac Evans, Y Waun [anrhydedd]. Gradd 3 – Yvonne Evans, Tandderi a Rhys Davies, Tyngrug-Isaf [teilyngdod]. Gradd 4 – Sioned Fflur Evans, Glantrenfach. Gradd 6 – Lowri Elen Jones, Glennydd, Llanbed [teilyngdod] a Meleri Davies Tyngrug Isaf [teilyngdod].

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

**Cangen Llanybydder Diabetes Cymru UK**

Ar ôl cyfarfod diwethaf Cangen Llanybydder Diabetes Cymru UK derbyniwyd siec am £660.00 rhan o elw "whistdrive" o drefnwyd gan Mr Jack Jenkins yn ystod y flwyddyn.

Hefyd derbyniwyd siec oddi wrth Sioe Amaethyddol Gorsgoch a Chlwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog am £1,500.00 ar ôl iddynt drefnu Dawns. Mae'r gangen am ddiolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

**Wyrion newydd**

Llongyfarchiadau i Len ac Anona Ebenezer. Cedars ar ddod yn ddat-cu a mam-gu unwaith eto, efeilliaid i Gareth a Lilian yn Llambed.


Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.


# Alltyblaca

**Diolch**

Dymuna Jack Jenkins, Perthi ddiolch i bawb am y dymuniadau da, galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd ar ôl y driniaeth yn Ysbyty Treforys.


**CAPEL UNDODAIDD ALLTYBLACA**

TY CAPEL I'W OSOD

Adnewyddwyd wyth mlynedd yn ôl.
Gwres canolog olew.
Rhent rhesymol.

Am wybodaeth bellach ffoniwch 01570 422429



Cymdeithas Alzheimer's — Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632
neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 296645


# O'r Cynulliad

Un o fy mhryderon ar hyn o bryd yw Canolfan Ddydd Aberystwyth. Rydw i am weld y cyfleuster gorau posib ar gyfer henoed Gogledd Ceredigion ac fe wnes i fynychu cyfarfod yn ddiweddar gyda'r grŵp sy'n ymgyrchu i gadw'r Ganolfan Ddydd bresennol yn y dref. Mae'n fwriad adleoli'r gwasanaeth i Neuadd y Dref unwaith fydd y llyfrgell yn agor yno ac mae yna bryderon ynghylch pa mor addas fydd y safle newydd yma. Mi fydd y Ganolfan Ddydd bresennol yn cael ei dymchwel er mwyn gwneud lle i'r datblygiad ar y safle Dan Dre, felly rwy'n annog ymgyrchwyr, y Cyngor Sir a'r datblygwyr i barhau i drafod er mwyn datrys y pryderon ynghylch adleoli'r gwasanaeth.

Rwy'n siomedig iawn i glywed am benderfyniad Llywodraeth Cymru i werthu fferm Pwllpeiran yng Nghwmystwyth. Mae gwerthu Pwllpeiran yn golygu y bydd Cymru yn colli ei hunig fferm ymchwil sydd yn eiddo i'r cyhoedd. Ar ôl codi'r mater gyda'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth pan godwyd cwestiynau am ddyfodol y stad yn gyntaf, fe dderbyniais lythyr ganddo yn ddiweddar yn cadarnhau ei fod yn bwriadu gwerthu'r tir bob yn dipyn o gwmpas hydref 2012. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y staff sy'n cael eu cyflogi ym Mhwllpeiran ar hyn o bryd yn poeni am eu dyfodol ac rwyf hefyd wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol dros y misoedd nesaf.

Yn olaf, mae'n siŵr bydd nifer ohonoch yn ymwybodol bod Plaid Cymru wedi cychwyn ar y broses o ethol arweinydd newydd yn dilyn cyhoeddiad Ieuan Wyn Jones AC y bydd yn rhoi'r gorau i'w swydd ym mis Ionawr. Rwyf innau wedi rhoi fy enw ymlaen ar gyfer y swydd a dros yr wythnosau nesaf fe fyddaf yn cyflwyno fy ngweledigaeth ar gyfer dyfodol y Blaid a Chymru. Beth bynnag fo'r canlyniad ar 15fed o Fawrth, bydd fy ngwaith fel Aelod Cynulliad Ceredigion yn parhau a gallwch fod yn sicr y byddaf yn rhoi 100% o'm hymdrech wrth eich cynrychioli.

# Yn y Gegin gyda Gareth

Braf yw bod nôl yn y gegin i ddod â blwyddyn o ddanteithion i chwi ddarllenwyr Clonc. Y mis yma mae yna fwrlwm o flasau Cymreig yn y gegin wrth i ni edrych ymlaen at ddathliadau Gŵyl Ddewi mis nesaf. Gyda chymaint o gynnyrch Cymreig unigryw o ansawdd arbennig bellach, hyfryd yw eu cynnwys mewn rysetiau. Felly, gwisgwch eich cenhinen a'r Cennin Pedr ac ewch ati i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi.

Hwyl,
*Gareth*



**"Frittata Cennin"**

Cynhwysion

- 1 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd.
- 4 ŵy
- 125 gram o gaws gafr meddal wedi'i ddarnio.
- 1 genhinen
- 12 tomato wedi'u sychu yn yr haul a'u torri'n fân.
- 2 llond llwy fwrdd o bersli wedi'i ddarnio.

Dull

1. Cynheswch y gril i dymheredd cymedrol.
2. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio nad yw'n sticio 18cm. Yn y cyfamser, curwch yr wyau gyda llond llwy fwrdd o ddŵr a phupur a halen. Rhowch y genhinen yn y badell ffrio am 5 i 7 munud i'w meddalu.
3. Arllwyswch yr wyau at y gymysgedd a choginiwch am 5 munud nes yn euraid oddi tano.
4. Gwasgarwch y caws a'r tomato dros y cyfan. Rhowch dan y gril am tua 10 munud nes fod y cyfan yn setio. Gweinwch ar ôl ei dorri yn drionglau a chuddiwch y cyfan gyda'r persli i greu lliw Cymru.



**Gellyg wedi'u Pobi**

Cynhwysion

- 6 gellygen (persen)
- 8 owns o gaws glas Cymreig
- Llond pot bach o fêl Cymreig
- 4 owns o gnau Ffrengig (walnuts) wedi'u darnio.

Dull

1. Sleiswch y gellyg yn haneri a defnyddiwch lwy de i lanhau'r canol. Gosodwch yr haneri ar dun pobi a choginiwch am 15 munud ar wres 200ºC i 400ºF, nes bod y gellyg wedi meddalu.
2. Tynnwch o'r ffwrn a gwasgarwch y caws a'r cnau Ffrengig dros y gellyg ac yna gwasgarwch y mêl clir drostynt. Rhowch dan y gril am 5 munud nes bod y caws wedi toddi ac yn euraidd. Gweinwch yn gynnes gyda bara a salad.


Gwledd Gŵyl Ddewi yng Nghegin Gareth

Diwrnod Cawl Cennin a Chlonc.
Braf yw rhoi gwahoddiad i chi ymuno â mi
i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn y gegin.
Patrwm y dydd –
Cyrraedd erbyn 10.30 am goffi / te a danteithion Cymreig
11.00 – 1.00: Arddangosfa goginio yn defnyddio cynnyrch Cymreig
1.00 – ymlaen Cinio Cymreig 3 chwrs.
Lleoliad – Goedwig, Heol Llanwnnen, Llambed
Dyddiad Mawrth 1af
Pris - £15.00
Ffôn i archebu – 01570 422313


# Corsgoch

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Ceredig Sisto, Blaenau Gwenog ar ei ddyweddïd â Carys Morgan o Fronwydd. Pob lwc i'r dyfodol.

**Cerddoriaeth**

Llongyarchiadau hefyd i Gwawr Hatcher ar basio gradd 7 ar y piano gyda theilyngdod ac i Sophie a Lauren Jones, Awelygors am basio gradd 6, Lauren gyda theilyngdod. Da iawn ferched.

# MiS y PaPUr NewYdD

## Colofn Dylan Iorwerth

**Edrychwch o'ch blaen chi!**

Mae'n dymor panto unwaith eto. O ydy mae hi, yng ngwlad y ffermwyr ifanc o leia'.

Pan fydd holl y rhan fwya' o theatrau'n rhoi eu coed ffa a'u lampau hud i gadw am flwyddyn arall, mae pobol ifanc cefn gwlad Cymru'n mynd yn ôl i dymor y Nadolig.

Ddiwedd y mis, mi fydd Theatr Felin-fach a Neuadd San Pedr Caerfyrddin yn siglo gan chwerthin, canu a lot fawr o groes-wisgo.

Erbyn y ffeinals cenedlaethol yn Llandudno ym mis Mawrth, mi fydd hi'n nes at y Pasg na'r Nadolig ond does dim ots.

Dw i wedi sgrifennu o'r blaen am ryfeddod cystadleuaeth adloniant y mudiad a'r gwaith anhygoel sy'n mynd at baratoi'r sioeau – miloedd o oriau gwirfoddol ar gyfer Cymdeithas Fawr David Cameron.

Dw i wedi sgrifennu o'r blaen hefyd am allu cynyrchiadau efo blas lleol i lenwi theatrau pan fydd cynyrchiadau proffesiynol, cenedlaethol yn hanner gwag.

Ond mae ffermwyr ifanc yr ardal yma dan anfantais – a mantais – pan ddaw hi at greu pantomeim. Achos mae gynnon ni ein traddodiad panto ein hunain. Anfantais, falle, wrth gystadlu'n genedlaethol oherwydd ei fod yn wahanol i'r patrwm, ond mantais ym mhob ffordd arall.

Mae pantomeims proffesiynol yn dueddol o ddilyn model hollol bendant, efo'r prif fachgen yn ferch a'r hen ddynes yn ddyn, merch ifanc blastig o bert a chreadur bach digywilydd sydd naill ai'n anifail neu was.

Yn ôl y rhai sy'n mynd i'r perfformiadau yma, mae hyd yn oed y jôcs yn hen – bron mor hen â'r cyn-sêr, neu'r hanner-selebs, sy'n cael eu perswadio i gymryd rhan.

Oherwydd pantomeim Felin-fach, mae'n wahanol yng Ngheredigion a gogledd Shir Gâr. Mae'r panto'n fwy o berfformiad cymdeithasol ac yn cynnwys neges benodol.

Y gogoniant arall ydi'r cymeriadau stoc gwahanol – rhai sy'n codi o hen ddramâu cefn gwlad ... y Sgweier clonciog ei Gymraeg, y curad llawn ffwdan a llaw awydd rhywiol, y blismon(es) cefn gwlad a nifer o rai eraill.

Tan yn ddiweddar, o leia', roedd y dylwythen deg hefyd yn un hynod. Roedd yna un fersiwn bach, yn swnio braidd fel Pinky neu Perky, a fersiwn mawr trwsgl oedd ymhell o fod yn deg. Roedd yna rywbeth hynod o Gymreig am Tegi Wegi.

Dwn i ddim a oedd honno'n tynnu ar y pantomeims Cymraeg proffesiynol cynnar – y rhai a gafodd eu sefydlu'n fwriadol yn nechrau'r 70au er mwyn cystadlu yn erbyn y pantos Saesneg a rhoi dewis arall i blant Cymru.

Nid dim ond i blant Cymru chwaith, wrth gwrs. Un o nodweddion pantomeim ydi fod yr hiwmor yn aml yn gweithio ar ddwy lefel a llawer o'r ystyron dwbl a'r geiriau mwys y tu hwnt i'r plant bach ... gobeithio.

Dw i'n cofio rhai o'r pantomeims cynnar hynny – dw i'n amau dim mai Dan y Don oedd enw un ohonyn nhw, wedi ei seilio ar stori Cantre'r Gwaelod. Roedd yno dylwythen deg yn hwnnw hefyd – Fferi Nyff, yn cael ei actio gan Wynford Ellis Owen sydd bellach yn ymgyrchydd yn erbyn cam-ddefnydd o alcohol.

Un arall o'r perfformwyr oedd Dewi Pws ac mi fuodd Mei 'Wali Tomos' Jones yn 'dame' yn un ohonyn nhw hefyd. 'Mawredd Mawr' oedd enw'r cynta' a dw i'n hanner cofio bod Rosalind Lloyd – y gantores o Lanbed a Miss Asbri – yn rhan yr eneth hardd.

Yn y blynyddoedd ers hynny, mae Dafydd Hywel a Chwmni Mega wedi parhau'r traddodiad o addasu straeon Cymreig a'u troi nhw'n bantomeims ... enghraifft arall o pa mor bwysig yw cadw'r chwedlau'n fyw.

Dyn a ŵyr pa straeon fydd yn cael sylw ddiwedd y mis yma yn Felin-fach a Chaerfyrddin, ond mae un peth yn sicr; mi fydd rhyw glwb yng Ngheredigion yn defnyddio'r grisiau a siâp cyfleus y theatr yn Nyffryn Aeron er mwyn cael ras – un arall o'r traddodiadau.

Felly, ym mis Chwefror, mi fydd yr ardal yma'n rhan o rywbeth arbennig ... fersiwn Gymreig, gymdeithasol o adloniant byd-eang. Ydi'r tymor panto ar ben? O nac ydi ddim.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

# Llanwnnen



**Cylch Ti a Fi**

Cafwyd ymweliad gan Mary Jones, Swyddog Iaith a Chwarae y Sir, yn ddiweddar a chafodd y plant a'r rhieni amser buddiol iawn yn gwneud gwahanol weithgareddau. Roedd pawb wrth eu bodd yn mynd adref gyda nifer o weithiau celf a phawb wedi mwynhau mas draw.

**Ysgol Llanwnnen**



Cynhaliwyd Ffair Fentergarwch lwyddiannus iawn yn yr ysgol cyn y Nadolig. Roedd timau o blant yn cynllunio cynnyrch o ryw fath i werthu yn y ffair. Roedd rhaid creu cynllun busnes a gwneud y cynnyrch gan weld pa dîm oedd wedi gwneud yr elw mwyaf. Beirniadwyd y cynlluniau busnes gan aelod o Gyrfa Cymru ynghyd ag Erika o Feithrinfa'r Grannell. Ar ddiwedd y noson, y tîm a ddaeth i'r brig oedd Gleiniau Gloyw. Llongyfarchiadau i Heledd, Catrin a Sasha, sef aelodau y tîm buddugol.

Bu'r ysgol yn cynnal Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Alltyblaca cyn y Nadolig a braf oedd gweld y Capel yn llawn o rieni a ffrindiau'r ysgol. Hoffem ddiolch i swyddogion y capel am eu cydweithrediad parod yn ystod y noson a'r cyfnod ymarfer.

Yn ddiweddar bu rhai aelodau Blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd cylch yr Urdd. Llwyddodd y tîm i ddod yn ail, gan golli yn y gêm derfynol o 1-0. Hoffem ddymuno pob hwyl i Ysgol Carreg Hirfaen a enillodd y gystadleuaeth yn y rownd nesaf.

Daeth Anna ap Robert i'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gweithdy drama i'r aelodau hŷn. Cafwyd sesiwn yn llawn hwyl gyda nifer o berfformiadau diddorol a doniol. Mawr yw ein diolch iddi a gobeithio y gwelwn ni rai o'r disgyblion yn perfformio yn sioe y Clybiau Drama yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'n gyfnod ffarwelio â nifer o fyfyrwyr sydd wedi bod yn ein cynorthwyo yn yr ysgol dros y misoedd diwethaf, sef Miss Tracey, Miss Hayley a Miss Anwen. Rydym ni fel staff a disgyblion wedi gwerthfawrogi eich ymroddiad ac wedi mwynhau eich cwmni yn fawr. Pob dymuniad da ichi wrth barhau i astudio a chofiwch fod croeso ichi alw i'n gweld.

**18 oed**

Dathlodd Nicola Miles, 3 Bro Llan ei phenblwydd yn 18 oed ar Ragfyr 22ain. Gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

**Siop yn cau**

Cyn y Nadolig caewyd siop y Pentref a Swyddfa Bost Llanwnnen. Bydd y gymuned agos a'r ardal eangach yn gweld eisiau'r siop yn fawr. Diolch i Dai a Sally am eu cyfeillgarwch i bawb dros y blynyddoedd diwethaf. Iechyd da i chwi eich dau i'r dyfodol.

**Sefydliad y Merched**

Ar ddechrau blwyddyn newydd, dymunodd y llywydd Avril Jones, Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau oll. Wedi prysurdeb a chynnwrf y Nadolig, beth sy'n well nag edrych ymlaen a threfnu rhaglen amrywiol a bywiog am y flwyddyn i ddod. Noson felly oedd hi yng nghyfarfod mis Ionawr; pawb yn llawn syniadau am raglen y flwyddyn newydd.

Diolchodd y llywydd i Gwen Davies am drefnu'r Yrfa Chwist noson y Cinio Nadolig. Cafwyd cinio blasus yng Ngwesty'r Grannell a bu'r cymdeithasu yn hwylus wrth i bawb fwynhau yn chwarae'r cardiau.

Llongyfarchiadau i Ceinwen Roach am ennill marciau uchaf y flwyddyn yn y gystadleuaeth fisol. Enillwyd raffl mis Ionawr gan Ceinwen ac enillodd Avril gystadleuaeth y mis am Fag Siopa Eco.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngwesty'r Grannell nos Lun 6 Chwefror gyda Mrs Dina Gibbons yn dangos ei chasgliad o paperweights.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwys â Dai Thom, Frances a Luke, 6 Bro Llan a'u teuluoedd ar golli gwraig, mam a mam-gu annwyl yn ddiweddar, sef Mrs Alison Thomas.


CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

**Cynllun Grantiau Tirwedd a Threftadaeth Sir Gar**
**Mae Ffurflen Mynegi Diddordeb a Phecyn Ymgeisio yn barod nawr.**

1) **Grantiau Tirwedd** £100 - £5,000 – mwyafrif o 90% o gostau llawn i dirfeddiannwyr, grwpiau cymunedol a grwpiau cadwraeth bywyd gwyllt.
e.e creu amgylchedd/blychau adar /gwaith rheolaeth.

2) **Grantiau Treftadaeth Ddiwylliannol** £1,000 - £15,000 – mwyafrif o 80% o gostau llawn i hybu treftadaeth nodedig yn yr ardal.
e.e. Byrddau dehongli /defnydd hyrwyddol /llwybrau treftadaeth /gwaith cyfalaf bach.

**Am fwy o fanylion cysylltwch â**
Anna Hobbs – Swyddog Bioamrywiaeth - Grantiau Bioamrywiaeth a Thirwedd
Canolfan Tywi, Fferm Dinefwr, Llandeilo Tel 01558-824271
AHobbs@carmarthenshire.gov.uk

Emyr Price – Swyddog Treftadaeth Ddiwylliannol - Grantiau Treftadaeth Ddiwylliannol
Canolfan Tywi, Fferm Dinefwr, Llandeilo Tel 01558-824271
eprice@carmarthenshire.gov.uk

RDP Sir Gâr
Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

# Llanllwni

**Ysgol Llanllwni**

Croeso i Alwena Owen a Mared Harries i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac yn hapus ymhlith eu ffrindiau. Croeso hefyd i'r dosbarth i Connor Smith sydd wedi dod o Torquay.

Cyn y Nadolig ffarweliwyd â Mrs Gwyneth Davies a oedd yn dod am ddwy awr bob wythnos i helpu unigolion. Diolch i chi am eich gwasanaeth gwerthfawr dros y blynyddoedd. Croesawn Ms Nicola Thomas atom i barhau â'r gwaith yma. Ddiwedd mis Ionawr ffarweliwyd ag aelod arall o'r staff sef Mrs Diane Davies. Bu Diane yn gynorthwywraig werthfawr am dros ddeng mlynedd a gwelwn ei heisiau yn fawr. Pob lwc iddi yn Ysgol Penboyr.

Diolch i berchnogion Swyddfa'r Post am eu rhodd o £33.65, sef rhan o elw'r Raffl Nadolig.

Bu tîm o'r Adran Iau yn cystadlu yn nhwrnament pêl rwyd yr Urdd, Cylch Llanbed yn Llanbed. Aelodau'r tîm oedd Sinead, Rebecca, Siriol, Daniel, Max, Ceris, Carys a Nia.

Mae Staff yr ysgol wedi mynychu cyrsiau ar 'Read, Write, Inc' a 'Llythrennau a Synau' yn ddiweddar ac wedi dechrau eu defnyddio yn y dosbarthiadau.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Rhagfyr a Ionawr:-
**Mis Rhagfyr:** £50 – 186 Miss Mari Lois J Trysor, Pentop, Llanllwni. £40 – 238 – Huw Rees, Y Felin, Cwrtnewydd. £30 – 2 – Sophie Jones, Nanthendre (Upper Farm House), Llanllwni. £10 – 203 – Mike Harrington, Pontdulais Hall, Llanllwni. £5 – 78 – Ffion Harries, Maesnonni, Llanllwni. £2.50 – 81 – V & M Evans, Rhosdirion, Peniel. £2.50 – 38 – Beryl Davies, Hafan Haul, Gwyddgrug. £2.50 – 156 – Susan Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug. £2.50 – 174 – Denise Thomas, Neuadd Deg, Llanllwni.
**Mis Ionawr:** £10 – 241- Lewis Thomas, Pontllwni, Maesycrugiau. £5 – 174 – Denise Thomas, Neuadd Deg, Llanllwni. £2.50 – 134 – Simon Healy, Green Park, Llanllwni. £2.50 -120 – Emyr Evans, Cefncoed Isaf, Llanllwni. £2.50 – 196- Geraint Jones, High View, Llanllwni.

Mae'r amser wedi dod i ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr yr ysgol am y flwyddyn 2012-2013. Os dymunwch ymuno, cysylltwch â'r ysgol erbyn diwedd mis Chwefror. Diolch.

**Undeb y Mamau, Eglwys Sant Luc**

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr daeth Mrs Jenny Kimber o Lambed atom i arddangos ei chrefft yn gwneud cardiau cyfarch. Mae Jenny yn wraig brysur iawn yn ei hardal ac ar hanner hyfforddi i fod yn ddarllenydd lleyg. Cawsom orig bleserus iawn yn ei chwmni, ac fe ddysgon lawer. Diolch yn fawr iddi.

Ym mis Ionawr ein gwraig wadd oedd Mrs. Joan Jones, eto o Lambed. Daeth Mrs. Jones ag amrywiaeth ddiddorol a chywrain o'r gwaith llaw mae wedi ei greu dros y blynyddoedd. Roedd rhain yn wir o safon uchel iawn. Does dim rhyfedd fod llwyddiant ysgubol wedi dod i'w rhan mewn sioeau ac eisteddfodau. Mae'n amlwg fod menywod deheuig iawn yn byw yn Llambed! Diolch, yr un fath, i Mrs. Jones.

Mae'r flwyddyn newydd wedi dod â'i phrysurdeb i aelodau'r Eglwys. Nos Wener Ionawr 6ed cynhaliwyd y Blygain flynyddol ar gyfer y Ddeoniaeth. Eleni, Eglwys Tregaron oedd y gyrchfan ac fe gymerodd parti o Eglwys Llanllwni ran gyda thri pharti eglwysig arall. Cafwyd gwasanaeth bendithiol a braf oedd cael croesawu'r Flwyddyn Newydd yn y modd yma. Pwysig iawn yw cadw'r hen draddodiadau.

Ar Ionawr 14eg dathlwyd Gŵyl Calan Hen yn Eglwys Llandysul. Aeth nifer sylweddol i gynrychioli'r Eglwys, yn blant ac oedolion. Darllenwyd y pwnc gan y plant yn gynta ac fe'u holwyd gan y Parchedig D. M. Morris. I ddilyn, aeth yr oedolion drwy eu gwaith, a'u holi eto gan y Parchedig Morris, cyn diweddu gyda phawb yn ymuno i ganu. Ymhyfrydwn fod Ysgol Sul gref yn yr Eglwys a rhaid talu teyrnged i Mrs. Janet Howells am ei gwaith di-flino.

**Gwellhad buan**

Gwellhad buan i Geraint Rees, Maes-y-celyn, Llanllwni ar ôl cael llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Diolch**

Hoffai Olwen a Jason ddiolch o galon am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur geni Tomos Ifan, ŵyr cyntaf i Dewi ac Eleri, Blaencwmdu.

**Cydymdeimlad**


Estynnir cydymdeimlad dwys â Geinor Davies a'r teulu ar farwolaeth sydyn ei phriod Ieuan Davies, Penrhiw.

Hefyd, â theulu y diweddar Haydn Davies, Cnwcylili. Yr oedd yn adnabyddus iawn ac yn fawr ei barch yn y gymuned.

**C.FF.I Llanllwni**

Ddydd Sadwrn 26 Ionawr cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Sir yn Ysgol Gynradd Nantgaredig. Braf oedd gweld aelodau'r clwb yn cystadlu'n frwd yn ystod y dydd. Roedd 8 tîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth ddarllen i aelodau dan 14 oed a braf oedd dweud bod 2 ohonyn nhw o Glwb Llanllwni. Llongyfarchiadau i Betsan Jones, Luned Jones a Rhian Davies am ddod i'r brig yn y gystadleuaeth hyn ac i Betsan Evans, Sioned Howells a Sara Thomas am ddod yn bedwerydd. Pob llwyddiant i Betsan Jones a Luned Jones a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru ddiwedd mis Mawrth yn rhan o dîm Sir Gâr. Llongyfarchiadau hefyd i Rhian Davies a Betsan Evans am fod yn eilyddion i'r tîm yma.


Yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus i aelodau dan 16 oed hyfryd oedd clywed bod Betsan Evans (Cadeirydd), Ifor Jones (Siaradwr) a Rhian Davies (Diolchydd) wedi cipio yr ail wobr a Betsan Jones (Cadeirydd), Owain Davies (Siaradwr) a Sioned Howells (Diolchydd) y pedwerydd wobr allan o 9 tîm. Da iawn i chi gyd ac hefyd i Betsan Evans a Ifor Jones am fod yn eilyddion i dîm Sir Gâr. Hoffwn ddiolch i Mrs Marina Davies ac i Mrs Eileen Davies am hyfforddi a pharatoi yr aelodau go gyfer â'r gystadleuaeth. Diolch yn fawr iawn i chi.



Gwelir yn y llun uchod holl gystadleuwyr y clwb yn ystod diwrnod Siarad Cyhoeddus y Sir.

## CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2012

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 1 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un**. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!



Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, NG, LL, RH, TH

**AR DRAWS**

**1** Enw awdur y nofel *Pantglas* (7, 6)
**7** a **28** ar draws.
Argraffiad newydd o gerddi Waldo a gyhoeddwyd yn 2010 (4, 4)
**9** a **29**
*Byd o Beryglon: 1. Perygl ar _ _ _ _ _ _ _ _*, nofel gyffrous i ddarllenwyr 9–12 oed (4, 4)
**10** *Bachgen yn _ _ _ _*, nofel gan Morris Gleitzman (1, 3)
**12** Enw cyntaf awdur *Hen Blant Bach*, Nofel y Mis Ebrill 2011 (4)
**13** *Siôn Bach _ _ _ _ _*, cymeriad yng Nghyfres y Dyn Papur Newydd (5)
**14** Enw canol awdur y gyfrol o gerddi *Amheus o Angylion* (5)
**16** *Merch _ _ _ _*, nofel gan Sonia Edwards (4)
**20** Hanes y cymeriad lliwgar Russell Jones, _ _ _ _ _ *fy Myd* (5)
**21** Gweler **22** i lawr
**24** *Y Dewin _ _ _ _*, stori i blant gan Margaret Davies yn y gyfres Darllen Stori (4)
**26** Enw cyntaf awdur *O Dro i Dro*, casgliad o bedair dawns (5)
**27** Enw cyntaf cantores enwog, gwrthrych cyfrol gan Ilid Anne Jones (5)
**28** Gweler 7 ar draws
**29** Gweler 9 ar draws
**30** _ _ _ _ *Deuddeg*, cyfrol o hwiangerddi (4)
**32** Enw cyntaf awdur y gyfrol *Blwyddyn Fan Hyn a Fan Draw* (4)
**34** Bardd Plant Cymru 2010–2011 (4, 3, 6)

**I LAWR**

**1** Enw llawn Appy, y rheolwr pêl-droed a gyhoeddodd ei hunangofiant yn 2011 (7, 8)
**2** *Dolenni _ _ _*, casgliad o ryddiaith gan Owen Martell (3)
**3** Cyfrol gan Alan Llwyd – *Sut i Greu _ _ _ _ _* (5)
**4** Enw cyntaf arlunydd ac awdur y gyfrol *Mynyddoedd Eryri* (3)
**5** *Iaith y _ _ _ _ _ _ – Dyfyniadau Ynglŷn â'r Iaith Gymraeg* gan Gwilym Lloyd Edwards (6)
**6** Hunangofiant Sharon Morgan (5, 3, 7)
**8** Cyfenw golygydd y gyfrol *Sachaid o Limrigau* (5)
**11** Cyfrol liwgar o gerddi doniol i blant gan 34 ar draws (3)
**12** Enw cyntaf un o brif gymeriadau'r gyfrol *Dyddiadur Dripsyn* (4)
**15** Enw cyntaf awdur y gyfrol ddoniol *Pwy Faga Ddefed?* (4)
**17** *Theleri _ _ _*, hunangofiant 34 ar draws (3)
**18** *Rhag Pob _ _ _ _* – Cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)
**19** Enw cyntaf awdur *Bydoedd – Cofiant Cyfnod*, Llyfr y Flwyddyn 2011 (3)
**22** a **21** ar draws
Hunangofiant cantores dalentog o Lanerfyl – rhif 34 yng Nghyfres y Cewri (4, 5)
**23** Enw cyntaf awdur y gyfrol *Neb Ond Ni* – enillydd y Fedal Ryddiaith 2011 (5)
**25** Nofel ar gyfer yr arddegau ac oedolion yng Nghyfres y Dderwen gan Lleucu Roberts (6)
**26** *Rhy _ _ _* – Storïau Byrion gan Bobi Jones (3)
**28** Pedwaredd nofel Manon Steffan Ros (5)
**31** Cyfaill Jos yn *Rebels Ceir Rasio* a rhai o gyfrolau eraill cyfres Bechgyn am Byth (3)
**33** *Traed _ _ _*, nofel gan Mari Emlyn (3).

**Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion**

gwales.com llyfrau ar-lein

Cyngor Llyfrau Cymru
Welsh Books Council

**ENW**

**CYFEIRIAD**

**ENW'R PAPUR BRO**

Anfonwch y croesair at: **Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2012. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.**

DIWRNOD Y LLYFR 1.3.2012

# O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Bro Llanllwni**

Cadeirydd: Emyr Evans; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans.

Cyfarfu'r Cyngor ar 9 Ionawr 2011 yn Neuadd Gymundol Llanllwni

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ac estyn cydymdeimlad i Tom Jones ar golli ei frawd yng nghyfraith, Dewi Enoch, Pontceiliog gynt. Dymunwyd gwellhad buan i David Thorne yn dilyn llawdriniaeth ac i Eirlys Davies yn dilyn anhwylder yn ddiweddar.

Dymunwyd yn dda i'r Cwnstabl Rhydian Jones a fydd yn symud i swydd newydd yn ystod yr wythnosau nesaf. Penderfynwyd danfon llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r ardal a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae â'r adnoddau wedi cael eu harchwilio yn fanwl yn ystod y dyddiau diwethaf gan Tom Jones.

Yr oedd y cyfreithwyr wedi gofyn am nodi lleoliad adeilad Tŷ'r Hers ar fap.

Derbyniwyd llythyr gan RWE npower Renewables yn hysbysu'r Cyngor bod y cais am ganiatâd i ddatblygu fferm wynt Gorllewin Coedwig Brechfa wedi cael ei gyflwyno i'r IPC a bod cyfle i gofrestru ar y wefan cyn 18 Ionawr.

Penderyfynwyd cofrestru a rhoi y pwyntiau canlynol gerbron:

1. Pam bod angen hewl newydd a bod hewl i'w gael yno yn barod.
2. Cynydd yn y traffig.
3. Amgylchedd.
4. Diogelwch pe byddai un o'r melinau gwynt yn mynd ar dân ynghanol y goedwig.
5. Pam oedd angen gwneud y melinau gwynt hyn yn llawer iawn yn fwy na'r rhai presennol.
6. Plannu coed yn lle y coed presennol, ar pa ddaear yr oeddynt yn mynd i ailblanu y coed yma.

Penderfynwyd y byddai'r Cinio Blynyddol yn cael ei chynnal eleni yn y Talardd.

Penderfynwyd cefnogi'r mudiadau canlynol: Ambiwlans Awyr Cymru, Macmillan, CFFI Llanllwni, Victim Support, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

**Cyngor Tref Llambed**

Y Cyn-faer: Robert Phillips; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams.

Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Tachwedd 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cyn-faer a bu yn y gadair am gyfnod byr yn absenoldeb y Maer yn Ffair Nadolig yr Ysgol. Offrymwyd gweddi gan Andrew Carter.

Cafwyd cyflwyniad gan Maria Wilding ar gynllun Balchder Pentrefi sy'n galluogi Cynghorau Tref a Chymuned i ymgeisio am gymorth hyd at £20,000 i wneud gwaith cyfalaf a thirlunio yn unol ag amodau arbennig. Penderfynwyd hysbysu gwahanol fudiadau yn y dref am y cynllun.

Cafwyd cyflwyniad gan Gerald Morgan ar fwriad sydd ganddo i gyflwyno llyfr emynau yn cynnwys 25 emyn Saesneg o'i waith ef ei hun i Lambed. Caniatawyd iddo gynnwys arfbais y dref ar glawr cefn y gyfrol.

Nododd y Cwnstabl Richard Marshall y troseddau diweddar: difrodi teml baganaidd ar safle'r coleg; cyrch cyffuriau; dwyn nwyddau gwerth £3,000 o siop fferyllydd; troseddau rhyw.

Ychwanegodd y cwnstabl fod Arolygydd newydd wedi ei benodi i wasanaethu'r ardal.

Soniodd Robert Phillips am wasanaeth Bwcabus sy'n weithredol rhwng 7.00 y bore a 7.00 yr hwyr. Ei nod yw galluogi'r rheini sy'n byw yng nghefn gwlad Ceredigion a Chaerfyrddin i deithio i'r gwaith, i barhau â'u haddysg a chyrraedd gwasanaethau iechyd.

Derbyniwyd atebion gan Un Llais i Gymru i amryw ymholiadau gan y Cyngor.

Roedd aelodau'r Cyngor wedi cwrdd yn ddiweddar ag arweinydd Cyngor Ceredigion a'r Cyfarwyddwr Addysg i drafod amryw bynciau. Roedd hi'n gyfnod anodd ar gynghorau sir ac roedd rhaid blaenoriaethu: addysg, gwasanaethau cymdeithasol, priffyrdd ac eiddo. Manylodd y Cyfarwyddwr ar drefniadaeth cyfathrebu fwy effeithiol rhwng y Sir a Chyngor y dre a fyddai'n dod i rym yn fuan.

Bu cyfarfod i drafod cyllideb cyngor y dre ar 12 Ionawr 2012.

Penderfynwyd peidio â chodi'r presept am y flwyddyn ariannol nesaf.

Ystyriwyd yr arian roedd gan y cyngor wrth gefn a nodwyd y gallai'r swm hwn ddiogelu cynlluniau y gallai'r cyngor benderfynu ymgymryd â nhw yn y dyfodol.

# Colofn y C.Ff.I.

**Cwis y Sir**

Cynhaliwyd cwis y sir ar nos Lun 21ain o Dachwedd yn Neuadd Gymuned Ysgol Gyfun Aberaeron, dan ofal Llywydd y Sir, Eifion Morgans. Roedd yna 3 adran; adran gyffredinol, adran amaeth ac adran diogelwch ffyrdd. Dyma'r canlyniadau terfynol:1af – Caerwedros; Cydradd 2il – Felinfach A.

**Y dathlu yn parhau!**

Lansiwyd llyfr dathlu 70 mlynedd CFfI Ceredigion - 'Llafur Cariad' ar nos Fercher 23ain o Dachwedd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae'r llyfr ar werth mewn siopau lleol y sir.

Cynhaliwyd cymanfa ddathlu'r sir yng Nghapel Tabernacl, Aberaeron ar nos Sul 4ydd o Ragfyr dan arweiniad Dai Jones, Llanilar gyda Brian Jones ar yr organ.

Bydd cinio'r dathlu yn cael ei chynnal ar nos Sadwrn 30ain o Fehefin ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Croeso cynnes i bawb.

**Ffair Aeaf 2011**

Llongyfarchiadau i aelodau'r sir a fu yn llwyddiannus yng nghystadlaethau'r CFfI yn y Ffair Aeaf ddiwedd mis Tachwedd. Dyma'r canlyniadau: Tîm barnu carcas -1af - Eleri Jones, Tregaron (1af dan 26); Delyth Jones, Tregaron (1af dan 21); Fflur Davies, Penparc; Ifan Morgan, Penparc. Sialens ATV - 1af - Dyfan Ellis Jones, Llangwyryfon; 2il - Llion Davies, Troedyraur. Barnu Biff - 2il dan 26 - Eleri Jones, Tregaron; 2il dan 21 - Ceris James, Bryngwyn; 3ydd dan 16 - Dafydd James, Bryngwyn.

**Siarad Cyhoeddus Saesneg**

Campws coleg Felinfach oedd lleoliad y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Saesneg eleni, gyda chystadlu brwd ym mhob adran. Bydd y buddugwyr yn cynrychioli CFfI Ceredigion yng nghystadlaethau CFfI Cymru ym mis Mawrth. Dyma'r canlyniadau:

**Darllen 14 oed neu iau**

1af Llanwenog A. 2il Dihewyd, 3ydd Pontsian

**Adran iau 16 oed neu iau**

1af Llanwenog B, 2il Llanwenog A, 3ydd Llangeitho.

**Adran ganol 21 oed neu iau:**

1af Llangeitho, 2il Mydroilyn, 3ydd Llanwenog

**Adran hŷn 26 oed neu iau**

Cydradd 1af Llanwenog A a Pontsian A, 3ydd Mydroilyn

**Canlyniadau terfynol**

1af Llanwenog, Cydradd 2il Pontsian a Llangeitho

**Clwb 200**

Mis Rhagfyr:

1- Arwyn Davies, Pentre, Llanfair Clydogau; 2- John Morris, Panteg, Llanddeiniol; 3- Eilir & Enid Jenkins, Haulfryn, Mydroilyn

Mis Ionawr

1- CFfI Caerwedros; 2- WW & LH Jones, Garth, Beulah; 3- CFfI Penparc

**Siarad Cyhoeddus Cymraeg**

Cynhaliwyd y gystadleuaeth yma ddydd Sul, Ionawr 22ain.

**Dan 14 oed** - *Darllen:* Cadeirydd: 1af - Delyth Evans, Bro'r Dderi A; Cydradd 2il Nest Jenkins, Lledrod ac Eiry Williams, Llangwyryfon. *Darllenwyr* :1af - Delyth Evans, Bro'r Dderi A; Cydradd 2il - Carwyn Hawkins, Felinfach a Lleucu Ifans, Dihewyd Tîm: 1af - Bro'r Dderi A; 2il - Pontsian C; 3 - Llanwenog A.

**Dan 16 oed** - Cadeirydd 1af - Bleddyn Jones, Llanwenog; 2il Lauren Jones, Llanwenog B; 3ydd - Sian Downes, Llangeitho A. Siaradwr 1af - Meleri Morgan, Llangeitho; 2il - Carwyn Davies, Llanwenog C; 3ydd - Elen Davies, Pontsian C. Diolchydd 1af - Sophie Jones, Llanwenog B; 2il - Meinir Davies, Llanwenog A; 3ydd - Dewi Davies, Llanddeiniol. Tîm - Cydradd 1af - Llanwenog B a Llanwenog C; 3ydd - Llangeitho A.

**Dan 21 oed** - *Siarad ar ôl cinio:* Cadeirydd 1af - Lowri Davies, Llanwenog; 2il Meirian Morgan, Llangeitho; 3ydd Cari Flur Thomas, Pontsian. Siaradwyr: 1af - Gethin Hatcher, Llanwenog; 2il Elin Jones, Llanwenog; 3ydd - Cennydd Jones, Pontsian. Tim 1af – Llanwenog; 2il - Pontsian B; 3ydd Pontsian A.

**Dan 26 oed** - *Seiat Holi*: Cadeirydd: 1af - Lowri Evans, Troedyraur; 2il Einir Ryder, Pontsian B; 3ydd Lowri Jones, Caerwedros. Siaradwyr: 1af - Gethin Richards, Pontsian B; 2il - Cerys Jones, Llanwenog B; 3ydd - Ellen Jones, Troedyraur. Tîm 1af – Troedyraur; 2il Pontsian B; 3ydd Llanwenog B

**Terfynol**: 1af – Llanwenog; 2il – Pontsian; 3ydd – Llangeitho; 4ydd – Troedyraur; 5ed - Llangwyryfon; 6ed - Llanddeiniol.

# Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne




**Cwm Rhisglog, Tir Rhisgog**

Yng Nghaeo yn Sir Gaerfyrddin mae clwstr o enwau sy'n cynnwys yr elfen 'rhisglog': Blaen Rhisglog (1795), Cwm Rhisglog (1561), Foel Blaen Rhisglog (1834). Ceir Nant Rhisglog yn Sir Drefaldwyn sy'n troi rhod Melin Rhisglog ger Machynlleth. Ger Llanddewi-Brefi yng Ngheredigion ceir Rhisgog-uchaf, Rhisgog-ganol, Rhisgog-isaf. Mae Nant Rhisgog rhwng Afon Brefi a Nant Maenllwyd. Digwydd yr enw Tir Rhisgog yn yr un ardal yn 1688. Mae 'rhisgog' yn ffurf amrywiol ar 'rhisglog'.

Yr elfen sylfaenol yn yr enwau hyn i gyd yw'r enw 'rhisgl', sef y croen gwydn sy'n tyfu ar foncyff neu gangen. Yr un elfen a geir yn Rhisga yng Ngwent lle mae 'rhisga' yn cynrychioli'r ynganiad lleol ar 'rhisgau'. Mae 'rhisgau' yn ffurf amrywiol ar yr enw lluosog 'rhisglau'.

Anodd bod yn hollol sicr am union arwyddocâd yr elfennau 'rhisgl', 'rhisglau', 'rhisglog' bob amser mewn enwau lleoedd. Yr hyn sy'n sicr, sut bynnag, yw bod coed mewn ardaloedd ar draws Cymru yn cael eu digroeni'n gyson ar gyfer gwneud lledr. Gwaith gweddol ddiffwdan yw tynnu'r rhisgl oddi ar y coed rhwng mis Ebrill a mis Mehefin pan yw'r sudd neu'r sug yn codi. A gwaith tymhorol oedd y diwydiant rhisglo coed, a'r tymor hwnnw'n dymor cymharol fyr.

Mae rhisgl deri yn cynnwys cyfran uchel o dannin ac er mai rhisgl derw ifanc oedd yn cael ei ystyried orau ar gyfer trin crwyn, digroenid coed o bob math ac o bob maint. Mae hanes am ddigroeni coed derw yng Nghymru ar gyfer y diwydiant lledr mor gynnar â'r unfed ganrif ar ddeg.

Ceir disgrifiad gan lygad-dyst o ddigroeni coed yng Nghwm Ceri ger Castellnewydd-Emlyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tair gwraig a dau ddyn oedd wrth y gwaith. Wedi i'r coed gael eu cwympo, roedd y boncyffion a'r canghennau mwyaf yn cael eu digroeni gan risglwyr naill ai ar eu sefyll neu ar eu heistedd - eu coesau o amgylch y boncyff.

Gellid, yn ogystal, ddigroeni coeden ar ei sefyll. Mae disgrifiad wedi ei gadw o'r arfer hyn yn Halfway ger Llanymddyfri tua 1880. Roedd y merched ifainc yn gweithio o ben ysgolion a'r gwŷr ifainc mwyaf mentrus wedi gallu dringo i'r canghennau uchaf. Byddai'r hynafgwyr a'r plant yn casglu'r darnau o risgl a oedd yn disgyn i'r llawr. Nodir bod rhwng hanner cant a thrigain o bobl yn y gweithlu yn Halfway.

Roedd digonedd o risgl deri ar gael o fforestydd Cymru i gyflenwi'r tanerdai lleol. Ac roedd risgl yn cael ei allforio, yn ogystal, i Friste, i Lerpwl ac i Iwerddon. Yn y ddeunawfed ganrif roedd risgl yn cael ei allforio trwy borthladdoedd bychain megis Aberystwyth, Aberdyfi, Castell-nedd, Aberdaugleddau a Chaerdydd. Roedd Cas-gwent yn ganolfan o bwys oherwydd yno roedd y rhisgl a gynaeafid gan weithlu o wragedd ar hyd dyffryn Gwy yn cael ei storio.

Edwino a wnaeth y galw am risgl deri yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg; daeth y fasnach yng Nghas-gwent, er enghraifft, i ben yn y 1880au. Er bod y galw am risgl wedi cynyddu eto yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, dirywio ymhellach a wnaeth y diwydiant. Caeodd barcerdy deri Rhaeadr, yr olaf yng Nghymru, ddechrau pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Coffeir yr enw a'r grefft yn Tŷ'r Barcer (1590) yn Treuddyn, Sir Fflint a Gwern y Barcer (1689) yn Llanbedr Dyffryn Clwyd.

Ac mae enwau lleol eraill, yn ogystal, yn ddangoseg i bwysigrwydd a hirhoedledd y diwydiant lledr yn yr ardal hon. Ceir Tanerdy yn nhref Aberteifi, yn Llandysul, yng Nghaerfyrddin, yn Abergwili, yn Aberhonddu ac yn Llanwenog. Mae Ddôl Tanerdy yn enw ar gae yn Llanwnnen. Ceir Tanws yn Llandre, Cae Tanws yn Nhywyn a Chrofft y Tanws ym Meifod.

Cyfrifoldeb y barcer a'r tanerwr oedd trin y crwyn.

**Rhagor am Enwau Lleoedd**

Hoffwn dynnu sylw at gyfrol bwysig ar enwau lleoedd a ymddangosodd ychydig cyn y Nadolig. Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd yw teitl cyfrol ddiweddaraf Glenda Carr. Mae enwau ffermydd a thai a chaeau yn cael sylw a pharch dyladwy yn y gyfrol. Dyma'r union bynciau sydd at ddant cynifer o ddarllenwyr ar lawr gwlad ond maen nhwn'n feysydd sy'n cael eu hesgeuluso mor aml wrth drafod enwau lleoedd.

Mae hyd yn oed cip cyflym ar gynnwys ysgrifau Dr Carr yn dangos yn eglur bod gennym gronfa genedlaethol, yn ogystal â chronfa hollol leol, o elfennau gwerthfawr ym maes enwau cartrefi a chaeau. Yng ngogledd Sir Gaerfyrddin rydym yn gyfarwydd ag enwau megis Bryn myswynog, Taliaris, Tanglwst, Prysg, Cae meddyg, Bribwll, Sarn Elen. Cymwynas cyfrol Glenda Carr yw ei bod wedi llwyddo i dyrchu dan groen enwau fel hyn a chrynhoi swm o ddefnyddiau ategol perthnasol cyn cynnig dehongliad clir, difyr a chytbwys o enwau sy'n asgwrn cefn ein treftadaeth yn genedlaethol ac yn lleol. Ar dro ceir chwip o eglurhad ar enw na ellid fyth wedi'i ddatrys heb wybodaeth drylwyr o faes enwau lleoedd, heb wybodaeth drylwyr o gyd-destun lleol y ffurf, heb wybodaeth drylwyr o hanes a chwedloniaeth Cymru; digon fydd imi gyfeirio yma at ddwy drafodaeth y naill ar Cae'r Capel a'r llall ar Cae Maes Lodwig. Peidiwch ag anghofio chwaith am enwau fel Appii Forum, Brynodol a Murcwpwl. Petai sylwadau Glenda Carr ar yr enwau hyn heb weld golau dydd yn y gyfrol Hen Enwau, byddem wedi ein hamddifadu o wybodaeth am drysorau gwerthfawr ym maes astudio enwau lleoedd

Dyma gyfrol a fydd ar silff pawb sy'n ymddidori ym maes enwau. Gwasg y Bwthyn yw'r cyhoeddwyr. Prynais i fy nghopi i yn Siop y Smotyn Du.

# Sarn Helen

Carai rhedwyr Sarn Helen longyfarch Eileen Rees ar ennill Gwobr Teilyngdod 2011, yn rhoddedig gan Athletau Cymru, i gydnabod ei chyfraniad i hybu diddordeb mewn athletau ymysg yr ifanc yn Llanbed a'r cymunedau cyfagos. Cyflwynwyd y wobr gan Mr a Mrs Wiselaw Gdula yng nghinio blynyddol y clwb.

Parc Singleton Abertawe oedd y safle ar gyfer trydydd rhan cyfres traws gwlad Gwent a Grace Page yn gorffen y ras nofis yn 18fed; 21 Rachel Priddey; 36 Beca Ann Jones. Dan 15 – 3ydd Caitlin Page; 7fed Ffion Quan. Menywod - 68 Caryl Davies; 107 Elen Page a ras dynion - 49 Glyn Price; 56 Michael Davies; 63 Dylan Lewis; 128 Mark Dunscombe; 246 Terry Jones.

Dydd Sul roedd Pencampwriaeth dan do Cymru yn NIAC Caerdydd. Cystadlodd Caitlin Page yn y ras 1500 medr ar drac ac enillodd y fedal efydd mewn 5 munud 10 eiliad. Enillodd Caryl Davies yr ail safle yng nghyfres de Cymru, cymdeithas rhedwyr mynydd Cymru.

Pen-blwydd hapus
**CLONC**
**yn 30 oed.**
Diolch i bawb am gefnogi dros y blynyddoedd.


YSWIRIANT FUW
Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai
FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU
*Arbenigedd lleol*
*Polisïau at bopeth*
*Prisiau cystadleuol*
Dewch i drafod eich anghenion gyda
**Alan Jacob** 07968 371823 / 01570 481361
neu
**Gwion James** 07980 608337 / 01570 480623
Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**
Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



*Mwnci ffwnci*

Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
**Sioned Green a Mared Jones**
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
☎01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com



SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON
ARDAL LLANYBYDDER / LLANBEDR PONT STEFFAN
NOSON Y LLYWYDD
♫♫♫ CAWL A CHÂN ♫♫♫
Nos Wener 2 Mawrth 2012
am 7.30 o'r gloch
Yn Neuadd Fwyta Lloyd Thomas Prifysgol Y Drindod Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan
Cyflwynydd : Mr Ifan Gruffydd, Tregaron
Artistiaid:
Clychau'r Fedwen a Georgina Cornock
Tocyn : £12-00
Am docyn ffoniwch : 01570 422 625, 01570 422 099, 01570 423 692
Elw tuag at BHF Nyrs Calon Ceredigion
Rhif elusen : 225971



DAI MECANIC
Arbenigwr mewn:
• Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
• Cynnal a chadw cyfarpar pŵer
**DAI JONES**
**07791 840 500**



Cefn Hafod
Gorsgoch
Cwrw Da Cwmni Da
01570 434238 07767 676348

| **Clwb Cyri** | **Cwis** |
|---|---|
| Bob nos Wener 6.30-8.30yh £5 am gyri o'ch dewis, reis, sglodion a bara naan Take Away neu bwyta mewn | Nos Iau cyntaf bob mis 8 o'r gloch Bwyd yn rhan o'r noson Timau: dim mwy na 6 |

# Cwrtnewydd

**Ysgol Cwrtnewydd**

Blwyddyn Newydd dda a braf yw cael croesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau Nadolig! Mae pawb wedi cael saib hyfryd, ac erbyn hyn yn barod am dymor prysur iawn.

Croeso cynnes i dri o blant newydd i'r ysgol sef Sara Davies, Megan Davies a Roland Weedon sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu yn nosbarth y babanod.

Braf yw cael croesawu Miss Heddwen Davies yn ôl i fywyd ysgol Cwrtnewydd. Miss Heddwen Davies yw ein pennaeth newydd a Mrs Hannah Thomas fydd yr athrawes â gofal am yr ysgol o ddydd i ddydd.

Erbyn hyn mae yna ddau glwb yn rhedeg yn wythnosol sef y clwb drama dan arweiniad arbenigwyr o Theatr Felinfach a chlwb yr Urdd.

Bu tîm pêl rwyd yr ysgol yng Nghanolfan Hamdden, Llanbed yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl rwyd yr Urdd. Chwaraeodd y plant ddwy gêm, a chafwyd canlyniad cyfartal yn y ddwy gêm yn erbyn Ysgol Y Dderi ac Ysgol Carreg Hirfaen. Da iawn chi.

Mae plant y dosbarth hŷn ar hyd o bryd yn derbyn sesiynau gyda Janet o 'Bible Explorer'. Byddwn yn astudio addysg grefyddol o'r testament newydd.

Braf yw cael croesawu Miss Jo ein cogyddes yn ôl i'n plith ar ôl cyfnod o salwch.

**Noson Lawen**

Braf oedd gweld Charlotte Saunders, Gwêl y Cwm yn canu unawd 'Hirddydd Haf' ac yn rhan o Gôr Dwynant ar raglen Noson Lawen ar nos Galan. Da iawn ti Charlotte.

**Cartref Newydd**

Pob dymuniad da i Elgan a Brenda Jones yn eu cartref newydd yn Gwêl-y-Cledlyn. Iechyd da i chwi am flynyddoedd lawer yn eich cartref newydd.

**Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd**

Braf oedd cael croesawu blwyddyn newydd a chwrdd unwaith eto yn y cylch.

Bu'r plant yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd.Gan ei bod yn dymor yr wyna buom yn gwneud mygydau defaid a'u haddurno. Roedd pawb wrth eu bodd.

Cofiwch ma 'na groeso mawr i bawb ymuno â ni brynhawn dydd Mawrth yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd o 1.30-3.15 i gael paned a chlonc.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch yr ysgol ar 01570 434 273.

**Gwellhad Buan**

Dymunir yn dda i Mrs Gaynor Evans o Lambed ond gynt o Fronddu, Cwrtnewydd yn dilyn ei harosiad hir yn dilyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Hefyd i Gareth Lloyd, Ucheldir a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar.



Cynhaliwyd cystadleuaeth rownd gyntaf Cogurdd yr Urdd yn yr ysgol. Bu naw o'r plant yn paratoi a chyflwyno salad ffrwythau. Mrs Delyth Hughes cogyddes dros dro yr ysgol oedd y beirniad a chafodd ei ysbrydoli gyda'r safon uchel a gyflwynodd y plant. Elin Davies oedd yr enillwraig a Madeline Smith yn ail agos. Llongyfarchiadau i'r naw a phob lwc i Elin yn rownd dau yn hwyrach yn y tymor.



Aelodau Pwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd - Wendy Davies, cadeiryddes yn cyflwyno arian i Heddwen Davies o Ysgol Cwrtnewydd, Carol Rees ar ran Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd, Eleri Jenkins o Ysgol Feithrin Drefach a Mary Jones ar ran Pwyllgor hŷn Llanwenog mewn noson o fingo a gynhaliwyd yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd.



Enillwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion dan 21 oed gan dîm Llanwenog - o'r chwith Gethin Hatcher, enillydd Tarian y siaradwr gorau; Lowri Davies, enillydd Tlws y cadeirydd gorau ac Elin Jones gyda chwpan y tîm gorau.

# Ffarmers

**Gwellhad Buan**

Mae tri o drigolion y gymdogaeth wedi treulio amser yn yr ysbyty yn y cyfnod cyn y Nadolig, ond mae'n dda eu gweld adref bellach, ac ar wellhad. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Ethel Davies, Llys Helen, Gwyneth Davies, Maesisaf a Roddy Jones, Caeiago.

**Pen-blwydd Hapus**

Pen-blwydd hapus i Paul Merriman, Ysgubor Llwyncwrt, ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ddechrau'r flwyddyn.

**Neuadd Bro Fana**

Daeth aelodau o Gyngor Rheolaeth Neuadd Bro Fana, ynghyd â'u gwesteion, at ei gilydd ar nos Wener, y 9fed o Ragfyr ar gyfer eu cinio blynyddol yn Y Drovers. Fel arfer, cafwyd bwyd blasus, a digon o chwerthin. Diolch i Judy ac Ethel am drefnu y cwis. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Neuadd ar y 13eg o Ragfyr. Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf: Llywydd – Ethel Davies; Cadeirydd – Judy Jenkins; Is-gadeirydd – Irfon Davies; Trysorydd – Liz Thomas ac Ysgrifennydd – Elfyn Davies.

Bu'n rhaid canslo y trefniadau y llynedd oherwydd y tywydd mawr, ond eleni, dychwelwyd at yr hen drefn o gynnal Gwasanaeth Carolau yn y Neuadd ar y nos Sul cyn y Nadolig gyda chynrychiolwyr o'r Eglwys a'r Capeli lleol yn cymryd at y rhannau arweiniol – Rhys Jones a Bryn Jones o Eglwys Llanycrwys; Ray Davies a Elfyn Davies o Bethel, Cwm Pedol; Ann Jones a Eirwyn Richards o Salem, Caio; Eryl Mathias o Saron, Cwm Twrch a Dewi Williams a Aled Williams o Gapel Ffaldybrenin. Cafwyd gwasanaeth hyfryd gyda the, gwin mwl a theisennau briwdda i ddilyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth parod. Bydd elw'r noson yn cael ei gyflwyno i Ambiwlans Awyr Cymru.

Ar Nos Lun, y 6ed o Chwefror, bydd Ben Bouvet o'r Drovers yn arddangos ei sgiliau coginio yn y Neuadd – mae croeso i chi ymuno â ni, a chael cyfle i flasu'r bwyd. Ar Nos Wener, yr 17eg o Chwefror, cawn gwmni Wyn Gruffydd yn siarad am ei brofiadau yn dilyn hynt a helynt tîm rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd yn Seland Newydd llynedd. Mae Wyn newydd gyhoeddi 'Dyddiadur Cwpan y Byd 2011' gan wasg Y Lolfa – gwerth ei ddarllen!

# Cwmsychpant

**Siarad Cyhoeddus y C Ff I**

Yn ystod y ddwy gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg y Ffermwyr Ifanc daeth llwyddiant i Einir Ryder, Tyngrug-ganol, Clwb Pontsian a Meinir a Carwyn Davies, Caerwennog Clwb Llanwenog. Bydd y tri ohonynt yn mynd ymlaen i lefel Cymru yn ystod y Gwanwyn. Pob dymuniad da i chwi eto i'r dyfodol.

**Cwrdd Bore Nadolig**

Gwelwyd Capel y Cwm yn llawn ar fore Nadolig i Wasanaeth arbennig o dan ofal Y Parch Wyn Thomas. Hyfryd oedd gweld y plant yn dod ag anrhegion i'w hagor yn y cwrdd – bendigedig. Cafwyd Cymundeb hefyd cyn troi am adref. Yn gwasanaethu wrth yr organ oedd Meleri Williams, Clyncoch.

**Noson Coeden Nadolig**

Cynhaliwyd noson Coeden Nadolig yr Ysgol Sul ar nos Wener, Rhagfyr 30ain yn y festri. Cafwyd pryd ysgafn o fwyd ac yna bu'r plant yn chwarae gêmau cyn i'r dyn pwysig ei hun gyrraedd sef Sion Corn!! Cafodd y plant anrhegion ganddo ac roedd pawb yn gyffrous iawn.

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau i Trystan Potter, Rhoslwyn ar ei ddyweddïad â Gemma Hope o Gwmann. Pob dymuniad da.

**Ŵyr Newydd**

Llongyfarchiadau i Eirwyn a Mary Davies, Maesnewydd ar enedigaeth ŵyr bach newydd Ifan Teifi i Edward a'i briod Lowri yn Llambed. Pob dymuniad da.


Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel, mae 2012 wedi cyrraedd o'r diwedd ac fe hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd! Wel sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad gyda chi ers y llynedd! Y cwestiwn holl bwysig wrth gwrs yw a fuodd Siôn Corn i'ch gweld chi? Rwy'n siŵr ei fod e', gan eich bod chi gyd bob amser yn blant arbennig o dda. Wel, mi fuodd y postmon yn brysur iawn dros y Nadolig yn tŷ ni, nid yn unig yn dosbarthu cardiau ond llwyth o luniau hyfryd y buoch chi gyd yn eu lliwio yn arbennig ar gyfer Lincyn Loncyn. Lluniau lliwgar a thaclus dros ben. Ardderchog blant!


Llongyfarchiadau i bawb, yn enwedig i Siwan Mair Jones o Gaerfyrddin, Cerys Parsons a Lauren Mcleary o Lambed, Elli Gorman o Benparcau, Wil Hockenhull o Dregaron a Sophie a Shannon Jones o Gwmann. Yn agos iawn i'r brig y mis hwn mae Lisa Eurgain Jenkins o Gwmsychpant, ond yn ennill y wobr y mis hwn mae Hafwen Fflur Davies, Fron Heulog, Llanwenog. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi, a chofiwch bod cyfle i chi gystadlu mis yma eto. Pob lwc.

Hwyl am y tro,





**Enillydd y mis!**

Hafwen Davies



| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Oed:** |
| **Cyfeiriad:** | |
| | |
| | |

# Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

## i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

**Cysylltwch â ni am fanylion pellach**





Ffôn/Phone:
**01545 574187**

E-bost/E-mail:
**cis@ceredigion.gov.uk**

Gwefan/Website:
**http://cis.ceredigion.gov.uk**

Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

# O gwmpas ein bro…




Alwyn Ward (ar y dde) Prifathro Ysgol Gynradd Cwrtnewydd yn derbyn llun gan Marian Rees, Cadeirydd y Llywodraethwyr, ar ran plant, staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol i gydnabod a dangos gwerthfawrogiad am ei waith gyda'r ysgol ar achlysur ei ymadawiad. Gyda nhw yn y llun mae Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg Ceredigion.




Noson wobrwyo Ysgol Gyfun Llanbed - o'r chwith - Dylan Wyn, Pennaeth; Daniel Edwardes, Prif Fachgen; Cyng. Odwyn Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr; Tim Hayes, Pennaeth y Chweched yn Ysgol Bro Myrddin, Gŵr Gwadd; Carwen Richards, Prif Ferch a Maer Llambed, Cyng. Hag Harries.



Myfyrwyr B Tec Blwyddyn 11, Ysgol Gyfun Llambed yn y Techno Camp gyda'u darlithwyr, Dr Hannah Dee a Dr Fred Labrosse.




Yng nghinio blynyddol sioe Gorsgoch a CFfI Llanwenog cyflwynwyd siec am £1500 gan y swyddogion Rhian, Cerys a Gwennan i Bet, Betty a Mair o Adran Clefyd y Siwgr, Llanybydder.



Jack Jenkins yn cyflwyno £660 yr un i Aneurin Jones o Sefydliad Prydeinig y Galon, Mair Evans Diabetes UK Cymru ac i Aneurin Davies o Ymchwil y Cancr, arian a godwyd mewn tair gyrfa chwist a drefnwyd gan Jack yn  y Llew Du Llanybydder yn ystod gaeaf 2010 / 2011.


LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

CYFRi
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS
23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng  yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth
01570 422305
07974 422 305

# Plant lleol yn cyflwyno 'Oliver'




Disgyblion Ffynnonbedr Campws Llanbed yn cyflwyno Oliver.

# Cadw'n heini Cadw'n iach



Tîm Pêl-rwyd Ysgol Carreg Hirfaen a enillodd Dwrnament Pêl Rwyd yr Urdd, cylch Llambed yn ddiweddar. Byddant yn cynrychioli'r cylch yng nghystadlaethau'r sir yn Llangrannog ym mis Chwefror.



Llwyddiant dwbl i Ysgol Carreg Hirfaen. Ar y chwith mae plant y Cyngor Eco wedi eu llwyddiant yn ennill y Faner Werdd am yr ail dro ac ar y dde, y Cyngor Ysgol sydd wedi derbyn Deilen Werdd 'Ail Gam' y Cynllun Ysgolion Iach. Hefyd yn y llun mae Mrs Nelian Williams a Mrs Fiona Jones, athrawon.



Caitlin Page, Ysgol Gyfun Llambed yn ennill y Fedal Arian ym mhencampwriaeth traws gwlad Cymru yn Aberhonddu yn ddiweddar a daeth Ffion Quan yn bumed



Clwb hoci Llanybydder yn derbyn eu skorts newydd a noddwyd gan Protherics UK Ltd, rhan o grŵp rhyngwladol BTG. Gwelir yn y llun Bethan Evans o Protherics UK Ltd, yn cyflwyno'r skorts i Beca Russell, capten y tîm eleni. Mae'r tîm wedi cael dechreuad da i'r tymor drwy ennill pump o'r wyth gêm gyntaf, ac yn bedwerydd yn y gynghrair ar y funed. Hoffai'r clwb ddiolch i bawb sydd wedi eu cefnogi hyd yn hyn.